



Canllawiau gwneud cais

Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau

Medi 2021

Amdanom ni

Elusen gyda chenhadaeth bwysig yw'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF). Bodolwn i atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais. Gwnawn hyn drwy ddarganfod beth sy'n gweithio a chreu mudiad i roi'r wybodaeth yma ar waith.

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymhél â thrais yn haeddu gwasanaethau sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt o gael dyfodol da. I wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd, byddwn yn ariannu prosiectau addawol ac yna'n defnyddio'r gwerthusiad gorau i ddarganfod beth sy'n gweithio. Yn union fel y manteisiwn ar dreialon trylwyr mewn meddyginiaeth, mae pobl ifanc yn haeddu cymorth sy'n seiliedig ar y dystiolaeth. Drwy ein rowndiau grantiau, byddwn yn cryfhau'r wybodaeth honno. Ac mae deall bywydau plant a phobl ifanc yr un mor bwysig. Drwy ein Bwrdd Cynghori Ieuenctid a rhwydwaith cenedlaethol o ymchwilyr cyfoed, byddwn yn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar ein gwaith a byddwn ninnau'n deall ac ateb eu hanghenion.

Ond ni fydd dim o hyn yn gwneud gwahaniaeth drwy wneud dim ond creu adroddiadau sy'n aros ar y silff. Gyda'n gilydd rhaid i ni edrych ar y dystiolaeth a chytuno ar beth sy'n gweithio, yna creu mudiad i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y cymorth gorau posib.

Mae ein strategaeth yn egluro sut y gwnawn hyn.

Amdanom Comic Relief

Trwy ddod at ei gilydd, Comic Relief yn dod â'u cyrhaeddiad, ymddiriedaeth a chreadigrwydd heb ei ail i'r bartneriaeth hon, gan ychwanegu at arbenigedd y Gronfa Waddol Ieuenctid mewn tystiolaeth, gwerthuso ac effaith graddio.

Mae Comic Relief wedi gweithio gyda grŵp anhygoel o gyd-grewyr - pobl ifanc 16-24 oed sydd â phrofiad uniongyrchol o drais ieuenctid a phersbectif unigryw ar yr hyn sy'n gwneud cartref cefnogol mewn gwirionedd - i ddylunio cwmpas y rhaglen ariannu newydd gyffrous hon.



Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau

Rydym yma i wella bywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn adeiladu ein holl waith o gwmpas cyfres o themâu – yr amodau y teimlwn fod plant a phobl ifanc eu hangen yn eu bywydau i'w diogelu rhag ymhél â thrais. Mae'r themâu hyn yn rhoi ffocws i'r wybodaeth yr ydym eisiau ei chasglu am beth sy'n gweithio i helpu i roi'r amodau hyn yn eu lle i bob plentyn a pherson ifanc.

Y rownd hon o grantiau, *Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau*, yw'r gyntaf y byddwn yn ei rhedeg fel rhan o'n thema **cartref cefnogol**.

Ar y rownd hon o grantiau, rydym yn gweithio gyda Comic Relief. Maen nhw'n buddsoddi peth o'u harian ac wedi ein helpu i gynnwys pobl ifanc mewn penderfynu ym mha beth yr ydym eisiau buddsoddi a dysgu ohono yn y rownd hon.



Mae pobl ifanc angen...



Cartref cefnogol

Boed hynny drwy therapi teuluol neu ddsbarthiadau rhianta, rydym yn gwybod y gall helpu rhieni a gofawyr wneud gwahaniaeth i fywyd plant sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais. Mae hyn yn cynnwys cymorth penodol i blant mewn gofal.

Oedolion y maent yn ymddiried ynddynt

Gall fod yn athro, gweithiwr ieuencid, hyfforddwr chwaraeon, mentor, neu ffrind i'r teulu. Mae ar blant a phobl ifanc angen oedolion y gallent ymddiried ynddynt i drafod eu problemau a chael cymorth pan fo angen.

Lle diogel a phositif i ddysgu ynddo

Mae sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn eu haddysg yn eu helpu i gadw'n ddiogel rhag bod ynghlwm wrth drais. Byddwn yn edrych ar sicrhau bod gan ysgolion, colegau, Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o addysg raglenni ar waith i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel a phositif i ddysgu ynddynt.

Cyfleoedd

Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc – boed hynny'n rhai cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Gall dyfodol disglair, gyda chyfle i adeiladu eu cryfderau a'u talentau, amddiffyn pobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

Cymdogaeth ddiogel

Mae bod â rhwydwaith ffrindiau da a lleoedd diogel i fynd yn y gymdogaeth yn golygu bod modd i blant a phobl ifanc gadw'n ddiogel. Gall hynny gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn tîm chwaraeon neu'r cyfle i greu celf neu gerddoriaeth. Ac mae'n cynnwys gwasanaeth heddlu sy'n effeithiol a theg y mae pobl yn ymddiried ynddo.

Cyfle arall

Weithiau, mae pethau'n mynd o chwith. Os yw person ifanc yn dod i drwbl, yn cael ei arestio neu'n ei gael yn euog o drosedd, bydd angen cymryd llwybr amgen ac osgoi cylch o aildroseddu.

Sgiliau cymdeithasol ac iechyd meddwl da

Mae angen i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Os gallent gydnabod a rheoli eu teimladau, gallent adeiladu perthnasoedd cryf gyda phobl eraill a goresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu. Yn ogystal, mae angen y cymorth gorau posibl i wella eu hiechyd meddwl a'u hunanhyder.

Cymdeithas deg

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, mae angen i ni weithio i wneud cymdeithas yn fwy teg. Mae hyn yn golygu taclo hiliaeth, gwahaniaethu a thlodi.

Beth yw cefnogaeth deuluol?

Mae cael **cartref cefnogol** yn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag ymhél â thrais. Pan fydd plant yn byw mewn cartrefi lle mae gwrthdaro neu gam-drin domestig, alcohol neu gyffuriau, neu lle mae aelodau eraill o'r teulu'n ymhél â thrais, maen nhw'n wynebu mwy o risg o ymhél â thrais eu hunain.

Dyna pam ein bod eisiau buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cynnig help i deuluoedd ac eisiau deall beth sy'n gweithio fwyaf effeithiol i leihau'r risg. Drwy'r rownd hon, mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn pedwar math o gefnogaeth deuluol:

- 1 Rhaglenni rhianta** (gan gynnwys rhaglenni i ofalwyr maeth neu bobl sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal preswyl), sy'n helpu rhieni a'u plant i ymddwyn yn bositif a chael perthnasoedd positif.
- 2 Ymyriadau therapi teuluol** (gan gynnwys i blant mewn gofal maeth), sy'n cynnig mathau ffurfiol o therapi i'r teulu cyfan.
- 3 Rhaglenni i leihau gwrthdaro rhwng** rhieni, sydd wedi eu dylunio'n benodol i wella'r berthynas rhwng rhieni neu ofalwyr.
- 4 Ymyriadau cam-drin domestig**, sydd wedi eu dylunio'n benodol i atal a lleihau niwed i blant ac oedolion.

Rydym eisiau i'r prosiectau a ariannwn gynnwys cefnogaeth deuluol i blant yn y system ofal, sydd wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder ieuencid.

Pam ydym yn buddsoddi mewn cefnogaeth deuluol?

Drwy sgwrsio gyda phobl sy'n gweithio i gadw plant yn ddiogel – a gyda'r plant ifanc eu hunain – roeddent yn bendant bod angen ffocws ar helpu teuluoedd. Mae tystiolaeth glir hefyd y gallai cefnogaeth deuluol fod yn effeithiol. Ond daw llawer o'r dystiolaeth o wledydd eraill yn hytrach na'r Deyrnas Unedig, ac mae gan lawer o'r astudiaethau perthnasol gyfyngiadau.

Drwy ariannu rhaglenni yng Nghymru a Lloegr, gallwn adeiladu ein gwybodaeth am sut orau i gefnogi teuluoedd, gofalwyr maeth a chartrefi gofal fel bod gan blant gartref cefnogol.

Drwy'r **rownd grantiau thematig** hon, rydym eisiau ateb y cwestiwn ymchwil:

Pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol i helpu teuluoedd a gofalwyr i greu amgylchedd cartref cefnogol i blant 6-14 oed (neu blant hyd at 18 oed os ydynt yn y system ofal neu gydag anghenion addysgol arbennig ac anableddau), gan eu gwneud yn llai tebygol o ymhél â thrais?

Mae gwahanol lefelau o dystiolaeth o ba mor dda y gallai gwahanol fathau o gefnogaeth deuluol weithio i atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais.

Dyna pam, i ateb ein cwestiwn ymchwil cyffredinol, ein bod wedi meddwl am gwestiynau penodol i ddangos i chi beth y gobeithiwn ei ddysgu am bob un o'r pedwar math o gefnogaeth deuluol y dymunwn eu hariannu.

Rydym wedi disgrifio'r math o werthuso y disgwylw'n i brosiectau fod yn barod amdano. Rydym hefyd wedi rhoi enghraifft o gwestiwn ymchwil mwy manwl y gallem ei ofyn fel rhan o werthuso rhaglen y byddwn yn ei hariannu drwy'r rownd hon. Mae'r rhain yn dangos y math o gwestiynau manwl yr ydym yn debygol o fod â diddordeb ynddynt, ond gallwn ystyried rhai eraill hefyd gan ddiwynnu ar y math o brosiect ydyw.

1 Rhaglenni rianta

Cwestiwn ymchwil cyffredinol: Beth yw effaith ymyriadau addysg a hyfforddiant i rieni neu ofalwyr ar ganlyniadau plant yr YEF, er enghraifft cefnogi ymddwyn yn bositif neu leihau ymddygiad ymosodol?

Math o werthusiad: Byddem yn defnyddio hap-dreial rheoli neu fath arall trylwyr o werthuso i ddeall a wnaeth raglen greu'r effeithiau positif hyn.

Dyma enghraifft o gwestiwn ymchwil mwy manwl y gallem ei gynnwys ar gyfer gwerthusiad rhaglen:

- ♦ A yw hyfforddiant i rieni, a hyfforddiant cyfathrebu, yn ffordd effeithiol o wella cyfathrebu mewn teulu a lleihau ymddygiad cyffuriau a gwrthgymdeithasol plentyn?

2 Ymyriadau therapi teuluol

Cwestiwn ymchwil cyffredinol: Beth yw effaith ymyriadau therapi teuluol ar ganlyniadau plant yr YEF?

Math o werthusiad: Byddem yn defnyddio hap-dreial rheoli neu fath arall trylwyr o werthuso i ddeall a wnaeth raglen greu'r effeithiau positif hyn.

Enghraifft o gwestiwn ymchwil mwy manwl:

- ♦ A yw cefnogaeth therapiwtig ddwys sy'n adeiladu ar gryfderau teuluoedd – i oresgyn yr heriau sy'n cyfrannu at gamdrin plant – yn ffordd effeithiol o wella perthnasoedd teuluol, lleihau problemau ymddygiad plant a pha mor debygol y bydd plant o gael eu rhoi mewn gofal?

3 Rhaglenni i leihau gwrthdaro rhwng rhieni

Cwestiwn ymchwil cyffredinol: Beth yw effaith ymyriadau gwrthdaro rhieni ar ganlyniadau plant yr YEF?

Math o werthusiad: Byddem yn hoffi defnyddio hap-dreial rheoli neu fath arall trylwyr o werthusiad i ddeall a yw rhaglen yn creu'r effeithiau positif hyn, ond oherwydd bod llai o dystiolaeth ar hyn, efallai y bydd angen i ni wneud gwerthusiad cam cynharach, fel astudiaeth beilot, i sefydlu'n gyntaf sut y mae rhaglen yn cefnogi plant, cyn symud at astudiaeth fwy manwl o'i heffaith.

Enghraifft o gwestiwn ymchwil mwy manwl ar gyfer astudiaeth beilot:

- ♦ A fyddai'n ymarferol gwerthuso'n drylwyr ymyriad i leihau gwrthdaro rhieni sy'n cynnwys cwnsela teuluol a gwasanaethau wedi eu teilwrio i rieni a phlant yn y Deyrnas Unedig, ac a oes dystiolaeth ragarweiniol bod yr ymyriad yn arwain at wella anawsterau emosiynol ac ymddygiad plant?

4 Ymyriadau cam-drin domestig

Cwestiwn ymchwil cyffredinol: Beth yw effaith ymyriadau cam-drin domestig ar ganlyniadau plant yr YEF?

Math o werthusiad: Byddem yn hoffi defnyddio hap-dreial rheoli neu fath arall trylwyr o werthusiad i ddeall a yw rhaglen yn creu'r effeithiau positif hyn, ond oherwydd bod llai o dystiolaeth ar hyn, efallai y bydd angen i ni redeg gwerthusiad cynharach, fel astudiaeth beilot, i sefydlu'n gyntaf sut y mae rhaglen yn cefnogi plant, cyn symud at astudiaeth fwy manwl o'i heffaith.

Enghraifft o gwestiwn ymchwil mwy manwl ar gyfer hap-dreial rheoli:



- ♦ A yw rhaglenni sy'n ceisio delio â'r niwed a achosir gan gamdrinwyr domestig i'r cwllwm rhwng y rhiant a gam-driniwyd a'u plentyn, yn gwella hunanwerth a hyder y rhiant a lleihau anawsterau emosiynol ac ymddygiad yn y plentyn?

Yn ogystal â'r cwestiynau ymchwil hyn, byddwn yn ystyried cwestiynau eraill wrth werthuso rhaglenni y byddwn yn eu hariannu ar draws y pedwar math o gefnogaeth deuluol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar sut y mae'r prosiect yn cael ei weithredu a'i gost.

Beth y byddwn yn buddsoddi ynddo

Byddwn yn ceisio adnabod rhwng **5 – 10 rhaglen** i'w hariannu a'u gwerthuso. Rydym yn cynllunio i wario rhwng £6-10m gan ddibynnu ar ba mor dda y mae'r ceisiadau'n cwrdd â'n meini prawf.

Am sgôp llawn y rhaglenni y byddwn yn eu hariannu yn y rownd hon, darllenwch y diweddariad ar ein prosiectws ar gyfer 2021 [yma](#). I wybod mwy am y mathau o werthuso yr ydym eisiau i chi ei wneud, dylech hefyd ddarllen ein prosiectws llawn [yma](#).

Amdan y canllawiau

Mae'r canllawiau hyn wedi eu rhannu'n bum rhan:

1 Darganfod beth sy'n gweithio

Mae'r rhan yma'n disgrifio ble i ddod o hyd i wybodaeth am y dystiolaeth am sut y gall rhaglenni cefnogaeth deuluol atal plant rhag ymhél â thrais. Bydd hyn yn eich helpu i ddefnyddio tystiolaeth i ddangos sut y bydd gwerthusiad pellach o'ch prosiect yn ein helpu ni i ddysgu mwy am beth sy'n gweithio.

2 Sut y byddwn yn asesu eich cais

Mae'r rhan yma'n disgrifio'r meini prawf a ddefnyddiwn i asesu eich cais.

3 Sut i wneud cais

Mae'r rhan yma o'r canllawiau'n egluro sut i greu eich ffurflen gais a sut i'w defnyddio.

4 Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam-wrth-gam

Mae'r rhan yma'n egluro sut y byddwn yn asesu eich cais ac am beth yr ydym yn chwilio yn eich atebion i bob cwestiwn ar y ffurflen ar-lein.

5 Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn egluro beth i'w ddisgwyl ar ôl i chi gyflwyno eich cais.



Darganfod beth sy'n gweithio



1. Darganfod beth sy'n gweithio

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuencid (YEF) yn bodoli i atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais. Gwnawn hyn drwy ddarganfod beth sy'n gweithio a chreu mudiad i roi'r wybodaeth yma ar waith.

Byddwn yn defnyddio ein cyllid i ddysgu am beth sy'n gweithio orau. Pan fyddwn yn gwybod mwy am sut orau y gallwn gefnogi pobl ifanc, byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y dulliau, arferion a'r rhaglenni hynny yno i'r bobl ifanc sydd eu hangen arnynt.

Felly byddwn yn blaenoriaethu ein cyllid ar weithgaredd y gallwn ei werthuso'n drylwyr. Bydd hynny'n golygu **prosiectau sydd eisoes yn cyflawni** ac yn gallu **dangos tystiolaeth** i ni eu bod yn cael effaith positif ar y plant a'r teuluoedd y maen nhw'n gweithio gyda nhw, a'u bod yn barod am werthusiad trylwyr. Gallai'r dystiolaeth yma gynnwys canlyniadau hap-dreialon rheoli (sydd wedi dangos bod eich prosiect yn gweithio mewn gwledydd neu gyd-destunau eraill ond sydd heb eu profi'n drylwyr yn y DU eto) neu dystiolaeth ragarweiniol eithriadol gryf am y rhaglen ei hun (fel astudiaeth beilot).

Yr unig eithriad i hyn fydd ar gyfer rhai prosiectau sy'n ceisio **lleihau gwrthdaro** rhieni a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan **gamdrin domestig**. Ar y pethau hyn, gallwn efallai ariannu gwerthusiadau cam cynnar ar gyfer rhai prosiectau yn y rownd hon. Y rheswm am hyn yw er bod peth tystiolaeth am sut y gall y rhaglenni hyn helpu oedolion, nid oes gymaint o ymchwil wedi'i wneud i sut neu a ydynt yn gweithio'n dda i gefnogi plant yn y teuluoedd hynny, ac a allent leihau'r risg bod y plant yn ymhél â thrais, felly byddai gennym ddiddordeb mewn helpu i sefydlu'r dystiolaeth ragarweiniol hon yn y meysydd hyn.

Nid yw hyn yn golygu na wnawn ariannu gwerthusiadau cam hwyrach os oes rhaglenni **camdrin domestig** a lleihau gwrthdaro rhieni sy'n barod. Helpu prosiectau i gasglu tystiolaeth gadarn am beth sy'n gweithio yw ein blaenoriaeth o hyd a gobeithiwn y bydd rhai rhaglenni'n barod am hyn. A **byddwn yn dal i ddisgwyl i brosiectau sy'n rhedeg gwerthusiadau cam-cynnar rannu peth tystiolaeth ragarweiniol gyda ni** (fel astudiaeth beilot). Mae hyn oherwydd y bydd yn rhoi syniad cliriach i ni a fyddwn yn gallu ariannu mathau mwy trylwyr o werthuso yn y dyfodol.

Mae bod yn bartner â'r YEF yn ymrwymiad mawr; i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth o ddarganfod beth sy'n gweithio, bydd angen i chi weithio'n agos â'ch gwerthuswr. Os nad ydych yn fodlon cael eich gwerthuso'n annibynnol, ni fydd ein cyllid yn iawn i chi.

*Am fwy o wybodaeth am ba werthusiadau yr ydym yn debygol o'u comisiynu ar gyfer y gwahanol fathau o weithgareddau y dymunwn eu hariannu, darllenwch ein Prosiectws ar gyfer 2021 a'n diweddariad (sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am ein rownd grantiau **Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau**).*

I ddysgu mwy am beth a olygwn wrth siarad am wahanol fathau o werthusiad, gallwch hefyd ddarllen ein [canllawiau i werthuswyr ar wahanol fathau o astudiaeth](#). Gallai canllaw [10 Steps for Evaluation Success](#) y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar (EIF) hefyd fod yn ddefnyddiol.

Sut y gallaf ddarganfod beth sy'n gweithio?

Os ydych yn gwneud cais am grant drwy ein rownd *cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau*, mae'n debyg bod gennych lwyth o **brofiad yn barod o ddarparu gweithgareddau i deuluoedd**.

Rydym wedi rhoi'r rhan yma at ei gilydd i'ch helpu i ddod o hyd i **dystiolaeth** a allai eich helpu i baratoi eich cais. Gofynnwn i chi fod mor benodol â phosib wrth egluro sut y mae tystiolaeth neu werthuso blaenorol wedi goleuo'r gweithgareddau sydd gennych mewn golwg.

Ein hadolygiad o'r dystiolaeth

Drwy weithio gyda'n partneriaid yn y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar (EIF), rydym eisoes wedi crynhoi peth o'r dystiolaeth sy'n bodoli am raglenni cefnogaeth deuluol a sut y gallent fod yn gweithio i atal trais.

Gallwch ei darllen [yma](#).

Pecyn Adnoddau YEF a'r Map Tystiolaeth a Bylchau

Mae Pecyn Adnoddau'r YEF yn crynhoi'r dystiolaeth ymchwil orau ar gael am wahanol ddulliau o atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc. Mae'n seiliedig ar ddata bywyd go iawn am beth a ddigwyddodd pan ddefnyddiwyd y dulliau hyn o'r blaen.

Mae'n disgrifio 13 o wahanol ddulliau, gyda mwy i'w hychwanegu yn y dyfodol. Gyda phob dull, mae'n egluro beth ydyw, pa mor effeithiol y mae'n debygol o fod, pa mor hyderus y gallwch fod yn y dystiolaeth o'i effaith, a hefyd yn rhoi syniad o'r gost. Mae hefyd yn cynnwys dolenni defnyddiol at adnoddau a rhaglenni cysylltiedig. Gallwch ddefnyddio Pecyn Adnoddau'r YEF i ddysgu mwy am raglenni cefnogaeth deuluol perthnasol fel [rhaglenni rhianta](#) a math o therapi teuluol o'r enw [therapi aml-systemig](#).

Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am yr holl ymyriadau y gobeithiwn eu hariannu yn y rownd hon. Felly os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, gallwch fynd i'n [Map Tystiolaeth a Bylchau](#), sef adnodd map tystiolaeth mwya'r byd ar beth sy'n gweithio i gadw plant yn ddiogel rhag ymhél â thrais. Mae'n adnodd eithaf technegol (un wahanol i'n Pecyn hygyrch) ond os ydych yn ceisio dod o hyd i astudiaethau o brosiectau tebyg i'ch un chi, gallai fod yn ddefnyddiol i'ch helpu i weld ble y mae'r dystiolaeth a ble y mae'r bylchau.

Mae'r Map Tystiolaeth a Bylchau'n rhoi darlun gweledol o faint ac ansawdd y dystiolaeth o wahanol raglenni. Mae'n cynnig ffordd hawdd o chwilio am a darganfod astudiaethau perthnasol ar draws y byd. Dylid hefyd cydnabod, er bod y Map Tystiolaeth a Bylchau'n dangos y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwahanol weithgareddau, ni all ddweud wrthy'ch a oedd rhaglen benodol yn effeithiol gyda chyflawni'r canlyniadau oedd mewn golwg. I ddarganfod hyn, bydd angen i chi ddarllen yr astudiaethau eu hunain.

Ble arall i ddarganfod beth sy'n gweithio

Gallwch ddarganfod tystiolaeth am raglenni cefnogaeth deuluol o sawl lle. Byddem yn argymhell dau adnodd gan sefydliadau sydd, fel ni, yn aelodau o'r [Rhwydwaith Canolfannau What Works](#).

Llawlyfr y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar (EIF)

Mae'r Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar yn hyrwyddo ymyriadau cynnar effeithiol i wella bywydau plant a phobl ifanc. Mae'r Sefydliad wedi cynhyrchu Llawlyfr lle gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am raglenni penodol a ddangoswyd i fod yn gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc.

Gallwch ddarllen mwy [yma](#).

Pecyn Lleihau Troseddu'r Coleg Plismona

Mae'r Coleg Plismona wedi creu [Pecyn Lleihau Troseddu](#), sy'n crynhoi'r dystiolaeth ymchwil orau sydd ar gael o beth sy'n gweithio i leihau troseddu.

Gallwch chwilio am y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt am leihau troseddu ymhlith plant a phobl ifanc [yma](#).

Sut y byddwn yn asesu eich cais



2. Sut y byddwn yn asesu eich cais

Bydd gennym dîm o aseswyr fydd yn adolygu eich cais ac yn ei sgorio ar sail wyth peth y byddwn yn chwilio amdanynt.

Byddwn yn defnyddio'r sgoriau hyn i greu rhestr fer o geisiadau i'w hasesu ymhellach, fydd yn cynnwys cyfweiliad a mewnbwn gan bobl ifanc a fu'n helpu i ddatblygu'r rownd grantiau hon.

Yr wyth maen prawf y byddwn yn sgorio eich cais arnynt yw:

1 Canlyniad gwerth chweil

Byddwn yn ceisio asesu, os byddwch yn darparu eich prosiect yn dda, a fydd y canlyniad sydd mewn golwg gennych yn atal plant rhag ymhél â thrais.

2 Os bydd yn cael ei ddarparu'n dda, pa mor debygol fydd y prosiect o gyflawni'r canlyniad

Byddwn yn ceisio darganfod a fydd eich prosiect yn debygol o weithio. I asesu hynny, byddwn yn gofyn dau brif beth i'n hunain:

- a. **A ydych wedi egluro'n glir beth fydd eich prosiect yn ei wneud a sut y bydd yn arwain at y newid y dymunwch ei weld i'r plant?** Gelwir hyn weithiau'n theori newid, hynny yw dull i'ch helpu i ddisgrifio eich amcanion hirdymor gan fapio eich camau ar yn ôl i egluro sut y bydd eich prosiect yn eich helpu i gyrraedd yno. Mae gennym ddiddordeb mewn deall beth y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am ba mor llwyddiannus fydd eich prosiect, pa mor glir y gallwn ddeall y gweithgareddau sydd gennych mewn golwg, ac a yw'r amser y bwriadwch gynnal eich gweithgareddau'n ymddangos yn rhesymol.
- b. **Beth y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am ba mor effeithiol fydd eich prosiect yn debygol o fod?** Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n dangos tystiolaeth y gallwch weithredu eich prosiect yn llwyddiannus gan arwain at newid positif i blant a phobl ifanc.

3 Ceisio cyrraedd y math iawn o bobl ifanc

Byddwn yn ceisio asesu ai'r plant a'r bobl ifanc y bwriadwch weithio gyda nhw yw'r rhai sydd fwyaf angen cefnogaeth arnynt. Gallai hynny gynnwys plant:

- ♦ sy'n dangos arwyddion ymddygiad cynnar, neu a ddatblygodd heriau â'u hymddygiad neu gyda gallu rheoli eu hemosiynau,
- ♦ sydd wedi troseddu
- ♦ sy'n camddefnyddio cyffuriau neu ag anhwylder camddefnyddio cyffuriau,,
- ♦ sy'n cael eu camdrin neu esgeuluso gan riant neu aelod arall o'r teulu,
- ♦ sydd â phrofiad o'r system ofal.

4 Yn debygol o arwain at newid yn y dyfodol

Rhan graidd o strategaeth yr YEF yw ehangu'r prosiectau y barnwn eu bod yn gweithio. Pan ddangoswyd bod prosiect yn effeithiol, byddwn am ei ehangu. Gallai hyn gynnwys ehangu gwasanaethau'r prosiect neu greu prosiectau'r un fath mewn ardaloedd newydd ar draws eu rhwydweithiau.

Dyna pam y byddwn yn asesu a fyddai'n bosib, os profir bod eich prosiect yn gweithio, dechrau cyflwyno'r gweithgareddau i ardaloedd newydd, perswadio sefydliadau eraill i ddysgu o'ch gwaith neu ddylanwadu ar eraill i newid sut y maen nhw'n gweithio er budd pobl ifanc.

5 Yn debygol o gyrraedd y math iawn o bobl ifanc

Byddwn yn asesu a oes gennych brofiad o gyrraedd y math o blant y gobeithiwch fod yn gweithio gyda nhw, ac a oes gennych ddulliau realistig a pherswadiol i'w cael i gymryd rhan yn eich prosiect.

6 Yn gallu darparu

Rydym yn ceisio asesu pa mor debygol y gallwch ddarparu eich prosiect. I wneud hyn byddwn yn edrych ar eich profiad blaenorol ac ar y cymorth, hyfforddiant a goruchwyliaeth a roddwch i'ch staff darparu, a'ch dealltwriaeth o wahanol risgiau a sut i'w lliniaru.

7 Y gallwn ei werthuso

Byddwn yn ceisio asesu a allwn werthuso'r hyn a wnewch yn iawn. Mae hyn yn rhannol er mwyn sicrhau y gallwch gyrraedd a chael grŵp digon mawr o blant i gymryd rhan, a phlant fydd yn gadael i ni gynnal hap-dreial rheoli (neu werthusiad trylwyr arall). Ar gyfer **rhaglenni rhianta a therapïau teuluol**, byddwn yn disgwyl i hyn ddigwydd o fewn blwyddyn neu ddwy i ni roi'r grant. Ar gyfer **rhaglenni lleihau gwrthdaro rhieni a cham-drin domestig**, gwyddom y gallai hyn gymryd mwy o amser i rai rhaglenni. Ond fel arfer, **byddwn yn blaenoriaethu prosiectau fydd yn barod am y mathau hyn o werthuso cyn gynted â phosib.**

8 Yn gallu darparu i'r nifer iawn o blant a phobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu a allwch weithio gyda digon o blant fel y gallwn gynnal hap-dreial rheoli (neu werthusiad trylwyr arall). Ar gyfer rhai **rhaglenni lleihau gwrthdaro rhieni a cham-drin domestig**, byddwn yn asesu a ydych yn cyrraedd digon o blant i redeg astudiaeth cam cynharach.

I ddarganfod pa gwestiynau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu yn erbyn pob maen prawf, darllenwch Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam-wrth-gam yn y canllawiau.

Ein hymrwymiad i ansawdd

Mae hefyd yn bwysig dweud, pan wnawn ein penderfyniadau, y byddwn yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad i gydraddoldeb.

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd ymylol – gan gynnwys plant a phobl ifanc du ac Asiaidd a phlant sydd wedi bod mewn gofal – wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Os ydym am wneud gwahaniaeth o ddifrif, rhaid i ni sicrhau bod ein cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cyrraedd a chynrychioli'r plant y gobeithiwn eu helpu.

Felly drwy'r rownd grantiau hon, byddwn yn sicrhau bod y prosiectau a ariannwn yn cefnogi plant o gefndiroedd ymylol a bod ein partneriaethau'n cynnwys prosiectau sy'n cael eu harwain gan arweinwyr du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn ein proses asesu.



Sut i wneud cais: defnyddio ein porth ar-lein



3. Sut i wneud cais: defnyddio ein porth ar-lein

Ar ôl i chi feddwl am y dystiolaeth a sgôp y rownd grantiau hon, gallwch ddechrau gwneud eich cais ar-lein.

Awgrym gwneud cais

Byddem yn argymhell i chi ysgrifennu eich ymatebion mewn dogfen y byddwch yn ei 'chadw' yn rheolaidd ac yna'n copïo eich ymatebion i'ch ffurflen pan fyddwch yn hapus gyda nhw. Drwy wneud hynny, os oes unrhyw broblemau technegol, ni fyddwch yn colli eich gwaith.

Cam un: dod o hyd i'r ffurflen

Cliciwch ar y ddolen hon fydd yn mynd â chi i'n porth ar-lein. Byddem yn argymhell defnyddio [Google Chrome](#) fel porwr, os gallwch.

Cam dau: mewnbynnu eich gwybodaeth

Dechreuwch fewnbynnu'r wybodaeth. Mae canllaw cam-wrth-gam ar gael ar sut i ymateb i bob cwestiwn yn y canllawiau hyn – ewch i Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam-wrth-gam.

Pan fyddwch yn ysgrifennu, **peidiwch** â defnyddio'r botymau nôl a blaen ar eich porwr – gallech golli eich gwaith. Yn hytrach, defnyddiwch y botymau **Nesaf** a **Blaenorol** i symud drwy'r ffurflen.

Cam tri: cadw a dod yn ôl at eich gwaith

Dylech gadw eich gwaith wrth fynd. Gallwch gadw eich gwaith ar unrhyw bwynt, a dod yn ôl ato wedyn, drwy glicio ar y botwm **Cadw** ar bob tudalen. Pan fyddwch yn cadw, bydd e-bost yn cael ei anfon atoch gyda chyfrinair. Gallwch ddefnyddio'r cyfrinair i fynd yn ôl at y ffurflen a pharhau gyda'ch cais.

Cam pedwar: anfon eich cais atom

Ar ôl cwblhau'r ffurflen, cofiwch glicio **Cyflwyno**! Os na wnewch hyn, ni fyddwn yn derbyn eich cais.

Ar ôl anfon eich ffurflen orffenedig atom, byddwn yn anfon e-bost o gadarnhad atoch. Gallwch hefyd gadw a lawrlwytho eich cais, er mwyn gallu ei ddefnyddio ar gyfer eich cofnodion personol.

Data a phreifatwydd

Os am wybod sut yr ydym yn storio a defnyddio'r data yn eich ffurflen, gallwch ddarllen ein [polisi preifatwydd data](#).



Cysylltu â ni

Os byddwch yn cael trafferth defnyddio ein ffurflen ar-lein, neu am ofyn cwestiwn, cofiwch gysylltu. Anfonwch e-bost atom yn grants@youthendowmentfund.org.uk ac fe wnawn ein gorau i helpu.

Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam-wrth-gam



4. Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau – canllaw cam-wrth-gam

Amdan y ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais mewn dau gam.



Cam un: gwiriad cymhwysedd sydyn

Rydym eisiau sicrhau bod y cyllid hwn yn iawn i chi. Gwyddom fod sefydliadau'n buddsoddi llawer iawn o amser ac adnoddau mewn paratoi cynigion a gwneud cais am gyllid. Dyna pam y bydd rhan gyntaf ein ffurflen gais yn gwirio eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf cymhwysedd, cyn i ni ofyn i chi lenwi'r cais yn llawn.

Os byddwch yn mynd drwy'r cam gyntaf hwn ac yn meddwl bod y system yn dosbarthu eich cais yn anghywir fel un anghymwys, gallwch e-bostio grants@youthendowmentfund.org.uk i ofyn cwestiwn a derbyn cymorth.



Cam dau: y cais llawn

Mae saith rhan i broses y cais llawn. Mae rhai o'r rhannau hyn yno i'n helpu i ddeall mwy amdanoch chi fel yr ymgeisydd (fel manylion am eich sefydliad ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n rhan o'ch cais), tra bydd rhannau eraill yn gofyn am wybodaeth i'n helpu i asesu pa mor gryf yw eich cais.

Yn y canllaw hwn, byddwn yn nodi'n glir pa rannau a ddefnyddiwn i'n helpu i asesu eich cais, ar beth y byddwn yn eich asesu, a pha wybodaeth y byddwn yn disgwyl i chi ei rhoi wrth ateb pob cwestiwn.

Cam un: gwiriad cymhwysedd sydyn

Yn y rhan yma, rydym eisiau sicrhau eich bod yn cwrdd â phob un o'n gofynion cymhwysedd ar gyfer y rownd hon. Os na fyddwch yn cwrdd â maen prawf, byddwch yn gweld testun help yn egluro pam nad ydych yn gymwys y tro hwn.

Os oes gennych gwestiynau am eich cymhwysedd, gallwch anfon e-bost atom yn grants@youthendowmentfund.org.uk.

Fel arall, [cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr](#) i gadw llygad allan am gyfleoedd yn y dyfodol gyda'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid a allai fod yn iawn i chi.

Cwestiynau:

1. A yw eich sefydliad yn gofrestredig? Er enghraifft, ydych chi'n elusen gofrestredig, cwmni, corff statudol neu'n CIC?

Rhaid i chi fod yn gofrestredig i dderbyn cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid. Ni allwn dderbyn ceisiadau gan unigolion na grwpiau nad ydynt yn gofrestredig.

2. Ydych chi'n gofyn am gyllid i weithio yng Nghymru a / neu yn Lloegr?

Yn y Gronfa Gwaddol Ieuenctid, dim ond i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr y rhoddwn grantiau. Ni allwn roi cyllid i sefydliad neu ar gyfer gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr.

3. Ai chi yw'r sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais am grant i'r YEF?

I sicrhau na fyddwn yn derbyn nifer o geisiadau am yr un prosiect, byddwn ond yn derbyn ceisiadau gan y sefydliad arweiniol yn eich consortiwm. Os byddwch yn gwneud cais fel consortiwm o bartneriaid, y sefydliad arweiniol yw'r un fydd yn gyfrifol am lofnodi'r cytundeb gyda'r YEF ac am adrodd i ni'n rheolaidd.

Os ydych yn gwneud cais fel rhan o gonsortiw, ond nid chi yw'r sefydliad arweiniol, dylech stopio llenwi'r cais hwn a thrafod gyda'ch sefydliad arweiniol, a ddylai gyflwyno ar eich rhan. Ni fydd gwneud cais mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn golygu eich bod yn llai tebygol o gael grant. Yr hyn sydd bwysicaf yw gallu cyflwyno tystiolaeth i ddangos sut y gallai eich partneriaeth ddarparu prosiect cefnogaeth deuluoedd sy'n atal plant a phobl ifanc yn effeithiol rhag ymhél â thrais.

4. Ydych chi'n credu bod eich gwaith yn gwneud pobl ifanc yn llai tebygol o droseddu nes ymlaen mewn bywyd?

Cenhadaeth y Gronfa Gwaddol Ieuencid (YEF) yw atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais. Gyda'r rownd gyllid hon, gobeithiwn ddysgu pa raglenni cefnogaeth deuluol sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc 6-18 oed rhag ymhél â thrais. Mae'n greiddiol bwysig eich bod yn credu y bydd eich prosiect yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn.

5. Rydym yn chwilio am weithgareddau sy'n berthnasol i thema'r rownd grantiau a ddisgrifir ar ben y dudalen. A yw ffocws eich cyllid ar y thema hon?

Rydym eisiau ariannu rhaglenni cefnogaeth deuluol sy'n cefnogi plant a'u rhieni neu ofalwyr. I ddysgu mwy am ffocws y rownd hon a chadarnhau bod eich gweithgareddau'n cyd-fynd â'r ffocws hwn, darllenwch [ddiweddariad y prospectws](#).

Byddwn ond yn rhoi grantiau i brosiectau sy'n amlwg yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y rownd hon. Os nad ydych yn siwr bod eich prosiect yn cwrdd â'n meini prawf, e-bostiwch grants@youthendowmentfund.org.uk. Gallai fod cyfleoedd eraill, nawr neu yn y dyfodol agos, sydd efallai'n fwy addas i'ch prosiect. I ddysgu mwy am ein cynlluniau am weddill y flwyddyn hon, ewch i ran 5 [ein prospectws ar gyfer 2021](#).

6. A fydd y rhan fwyaf o'r gwaith darparu a ddisgrifiwch yn eich cynnig yn rhoi ffocws ar / gweithio gyda naill ai:

- ♦ Teuluoedd gyda phlant dibynnol rhwng 6-14 oed, neu blant dibynnol rhwng 6-18 oed yn achos rhai ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau (SEND).
- ♦ Plant rhwng 6-18 oed sy'n derbyn gofal.

Wrth y gair 'teuluoedd', golygwn unrhyw un sy'n chwarae rôl gefnogol hirdymor ym mywyd plentyn. Gallai hyn gynnwys aelodau o'r teulu estynedig neu rwydwaith perthnasau, teuluoedd maeth a chartrefi plant. Nid oes raid i deulu olygu perthynas drwy waed o reidrwydd, nag aelodau teulu sy'n byw'n barhaol ar yr un aelwyd. Rydym eisiau deall beth sy'n gweithio i blant sy'n tyfu i fyny gyda phob math o wahanol deuluoedd.

Mae cenhadaeth y Gronfa Gwaddol Ieuencid yn troi o gwmpas plant a phobl ifanc. Yn y rownd hon, rydym eisiau gwybod pa ddulliau cefnogaeth deuluol sy'n gweithio orau i atal plant 6-14 oed (neu blant 6-18 oed ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau a / neu sydd â phrofiad o'r system ofal) rhag ymhél â thrais.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i **fwyafrif llethol** (dros 80%) y plant yr ydych yn gweithio gyda nhw fod yn y grwpiau oed hyn. Fel arall ni fyddwch yn gymwys am grant yn y rownd hon.

7. Yn y rownd hon, mae gennym ddiddordeb mewn ariannu a dysgu am y grwpiau canlynol o weithgareddau. Dewiswch ba grŵp a gweithgaredd y mae eich prosiect yn disgyn iddynt:

GRŴP A:

- ♦ Ymyriadau addysg a hyfforddiant i rieni (gan gynnwys ar gyfer plant mewn gofal) sy'n canolbwyntio ar helpu rhieni neu ofalwyr a'u plant i ymddwyn a chreu perthnasoedd positif.
- ♦ Ymyriadau therapi teuluol (gan gynnwys ar gyfer plant mewn gofal) sy'n cynnig therapiau ffurfiol rhwng therapydd hyfforddedig a'r teulu.

GRŴP B:

- ♦ Ymyriadau i leihau gwrthdaro rhwng rhieni, wedi eu dylunio'n benodol i wella'r berthynas rhwng rhieni neu ofalwyr.
- ♦ Ymyriadau camdrin domestig, wedi eu dylunio'n benodol i atal a lleihau niwed i oedolion, ac yn aml iawn i liniaru'r effaith ar blant o ddod i gysylltiad â chamdrin domestig.

Rydym eisiau gwybod i ba grŵp y mae eich prosiect yn disgyn iddo. Rydym eisiau buddsoddi mewn gwybod sut y gall lleihau gwrthdaro rhwng rhieni atal plant rhag ymhél â thrais. Ond nid oes gymaint o dystiolaeth i adeiladu arni fel ar gyfer rhaglenni rhianta neu therapiau teuluol. Felly mae'n debyg y byddwn yn comisiynu gwerthusiadau cam cynharach ar gyfer prosiectau sy'n disgyn i Grŵp B, oherwydd bod llai o ymchwil i werthusiad adeiladu arni. Ond nid yw hynny'n golygu na fydd angen unrhyw dystiolaeth arnom. Ar gyfer prosiectau Grŵp B, byddwn yn blaenoriaethu rhaglenni sy'n gallu dangos ymchwil ragarweiniol (fel astudiaethau peilot), yn ogystal â theori newid.

I ddysgu mwy am ein rhesymau dros ariannu dau grŵp gwahanol o weithgareddau a gwerthusiadau, darllenwch [ddiweddariad y prosiectws](#). Mae hefyd yn cynnwys mwy o wybodaeth am y gwahanol gamau gwerthuso mewn diagram defnyddiol ar dudalen 7.

8. Mae pob prosiect wedi'i ariannu gan yr YEF yn cael ei werthuso'n annibynnol fel y gallwn ddysgu mwy am beth sydd, a beth sydd ddim yn gweithio i leihau trais ymhlith pobl ifanc. Bydd angen i chi weithio gyda phartner gwerthuso drwy gydol y prosiect hwn. Darllenwch [ran 4 yn ein prosiectws a gwyllo ein fideo ar werthuso](#).

- ♦ Ydych chi wedi darllen y wybodaeth ategol a gwyllo ein fideo?
- ♦ Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth yma gyda'r bobl sy'n gwneud y prif benderfyniadau yn eich sefydliad, a darpar bartneriaid eich prosiect?
- ♦ A yw eich sefydliad, ac unrhyw bartneriaid y prosiect, yn cytuno i weithio gyda gwerthuswr annibynnol?
- ♦ Os dewiswch "do", cymerwn yn ganiataol ar gyfer gweddill proses y cais y byddwch yn cydymffurfio â'n dull o weithredu, sy'n rhywbeth na all yr YEF gyfaddawdu arno felly cofiwch sicrhau bod yr aelodau perthnasol yn eich sefydliad wedi darllen, deall a chytuno i'n dull.

Mae bod yn bartner â'r YEF yn ymrwymiad mawr; i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth o ddarganfod beth sy'n gweithio, bydd angen i chi weithio'n agos â'ch gwerthuswr. Os nad ydych yn fodlon cael eich gwerthuso'n annibynnol, ni fydd ein cyllid yn iawn i chi.

Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen **yr holl adnoddau** sydd gyda'r ffurflen gais fel eich bod yn gwybod yn union beth yw gwerthusiad annibynnol. Am fwy o fanylion, gallwch hefyd ddod o hyd i adnoddau ar gyfer ein partneriaid gwerthuso ar ein gwefan.

9. Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuencid (YEF) yn bodoli i atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais. Rydym eisiau i bobl ifanc dderbyn y gefnogaeth orau bosib ar yr adeg iawn. Mae hyn yn golygu cynnal y mathau mwyaf trylwyr o ymchwil. Bydd mwy o bobl ifanc wedyn yn derbyn y gwasanaethau seiliedig ar dystiolaeth y maen nhw'n eu haeddu. Mae'n golygu y byddwn yn cynnal gwerthusiadau gyda 'grŵp rheoli' o bobl ifanc na fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd. Yn aml iawn, mae angen dyrannu pobl ifanc i'r 'grŵp rheoli' hwn ar hap neu mae'n amhosib gwybod a fydd rhywbeth yn gweithio neu beidio. Dewiswch 'ydw' i gadarnhau eich bod yn deall ein dull o weithio, neu 'nac ydw' os nad ydych eisiau ein helpu i wneud hyn.

Gallwch ddarllen mwy am ein hymrwymiad i werthuso'n drylwyr, drwy gynnwys grwpiau rheoli, yn rhan 4 yn ein prospectws. Rydym eisiau ariannu gwerthusiadau trylwyr, fel hap-dreialon rheoli. Yn y gwerthusiadau hyn, mae un grŵp yn cymryd rhan mewn prosiect ac un arall ddim. Drwy edrych ar y ddau grŵp cyn ac ar ôl eich prosiect i gefnogi pobl ifanc, gallwn weld yn glir pa effaith a gafodd eich prosiect. Os nad ydych yn barod i gymryd rhan mewn gwerthusiad sy'n cynnwys hap-grŵp rheoli, ni fydd ein cyllid yn iawn i chi.

10. Rydym yn teimlo'n gryf iawn am ddeall beth sy'n gweithio i newid pethau i blant yn y tymor hir. Rydym eisiau osgoi hyrwyddo gwaith sy'n edrych yn dda ond nad yw'n gwneud gwahaniaeth yn y tymor hir. I osgoi hyn, rhaid i brosiectau wedi eu hariannu gan yr YEF gytuno i'w data gael ei gasglu a'i storio fel bod modd ôl-ddilyn prosiectau'n hirdymor drwy ein harchif data. Bydd yr archif data'n golygu y gallwn ddysgu mwy am beth sydd, a beth sydd ddim yn gweithio i leihau trais ymhlith pobl ifanc yn y tymor hir. Ni fyddwch yn derbyn cyllid gennym oni bai eich bod chi, eich sefydliad(au) a hefyd y partneriaid yn eich prosiect, lle bo'n briodol, wedi darllen, deall a chytuno i'n harchif data. Darllenwch y wybodaeth ar ein gwefan a gwylio'r fideo sy'n egluro pethau.

- ◆ Ydych chi wedi darllen y wybodaeth ategol a gwylio ein fideo?
- ◆ Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth yma gyda'r bobl sy'n gwneud y prif benderfyniadau yn eich sefydliad, a darpar bartneriaid eich prosiect?
- ◆ A yw eich sefydliad, a lle bo'n briodol y partneriaid yn eich prosiect, wedi cytuno i'r archif data?
- ◆ Os dewiswch "do", cymerwn yn ganiataol ar gyfer gweddill proses y cais y byddwch yn cydymffurfio â'n dull o weithredu, sy'n rhywbeth na all yr YEF gyfaddawdu arno felly cofiwch sicrhau bod yr aelodau perthnasol yn eich sefydliad wedi darllen, deall a chytuno i'r Archif Data.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad, e-bostiwch grants@youthendowmentfund.org.uk

I sicrhau y gallwn ddeall beth sy'n gweithio, mae angen i ni gasglu a storio data er mwyn gallu dilyn cynnydd y plant a gefnogwyd gan ein prosiectau yn y dyfodol. I ddysgu mwy am y data y byddwn yn ei gasglu, sut y byddwn yn ei storio a'i gadw'n ddiogel, dylech fod wedi darllen a gwylio'r holl adnoddau ar ein gwefan.

Mae'r data a gasglwn yn cael ei storio'n ddiogel fel na all ymchwilyr fydd yn defnyddio'r data yn y dyfodol byth adnabod unrhyw blentyn. Os nad ydych yn fodlon neu'n gallu casglu data personol y rhai sy'n cymryd rhan yn eich prosiect, nid yw ein cyllid yn iawn i chi.

11. Yn y rownd hon, ein ffocws yw plant a phobl ifanc sydd wedi eu hadnabod (gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant neu gorff statudol arall) i fod ag anghenion heb eu cwrdd yn eu bywydau, sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o ymhél â thrais yn y dyfodol.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n rhoi ffocws ar y meysydd / anghenion heb eu cwrdd canlynol. Pa rai o'r meysydd / anghenion heb eu cwrdd canlynol y mae eich prosiect yn eu targedu?

- ♦ Plant a phobl ifanc sy'n dangos arwyddion ymddygiad cynnar, neu a ddatblygodd heriau a'u hymddygiad neu gyda gallu rheoli eu hemosiynau.
- ♦ Plant a phobl ifanc sydd wedi cyflawni trosedd.
- ♦ Plant a phobl ifanc sy'n defnyddio neu gamddefnyddio cyffuriau neu ag anhwylder camddefnyddio cyffuriau.
- ♦ Plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu camdrin neu esgeuluso gan riant.
- ♦ Plant a phobl ifanc gyda phrofiad o'r system ofal.
- ♦ Teuluoedd lle mae'r rhieni, gofalyr neu frodyr / chworydd yn ymhél â thrais.
- ♦ Teuluoedd lle na chafodd y rhieni neu ofalwyr gyfle neu gefnogaeth i greu perthnasoedd positif a'u plant.
- ♦ Teuluoedd gyda gwrthdaro teuluol (er enghraifft trais domestig, neu lle mae'r gwrthdaro'n golygu nad yw'r rhieni neu ofalwyr yn gallu cynnig cymorth emosionol i'w plant).
- ♦ Teuluoedd lle mae'r rhieni, gofalyr neu frodyr / chworydd yn camddefnyddio cyffuriau.
- ♦ Teuluoedd lle mae gan y rhieni neu ofalwyr drafferthion iechyd meddwl a lles.
- ♦ Dim un o'r rhain.

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn ariannu rhaglenni sy'n cefnogi'r plant a'r pobl ifanc sydd fwyaf angen cefnogaeth arnynt. Rydym wedi adnabod bod y meysydd hyn yn anghenion arbennig o bwysig i'w cwrdd er mwyn atal plant rhag ymhél â throseddau a thrais yn y tymor hir. Dyna pam y bydd ffocws ein cyllid ar raglenni sy'n gweithio'n benodol i gefnogi pobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn.

12. Mae gennym ddiddordeb mewn deall effaith prosiectau ar ganlyniadau bywyd plant a phobl ifanc. I wneud hyn mae angen i chi naill ai:

- ♦ Gwybod pa ganlyniadau plant a phobl ifanc yw ffocws eich prosiect.
- ♦ Bod yn fodlon gweithio gyda ni i wybod pa ganlyniadau plant a phobl ifanc a allai fod yn ffocws i'ch prosiect.

A allwch gadarnhau y gallwch a'ch bod yn fodlon gwneud hyn.

Canlyniadau yw'r newidiadau y gobeithiwch weld eich prosiect yn eu gwneud i fywydau plant a'r teuluoedd. Ar gyfer y rownd hon, gallai canlyniadau teuluol gynnwys lleihau camdrin domestig, cefnogi

perthnasoedd da rhwng rhieni neu ofalwyr, helpu rhieni neu ofalwyr i wella eu sgiliau rhianta neu i leihau eu problemau camddefnyddio cyffuriau. Am restr lawn o'r canlyniadau sydd o ddiddordeb i ni ar gyfer y rownd hon, **ewch i gwestiwn 36.**

I sicrhau ein bod yn casglu tystiolaeth o ansawdd, bydd angen i chi fesur pethau sy'n ein helpu i ddeall a yw eich prosiect yn helpu plant yn y ffyrdd y byddech yn ei ddisgwyl. Gallai hyn fod drwy'r gefnogaeth a roddir i aelodau eraill o'r teulu. Er enghraifft, gallwn ofyn i chi fesur a oes unrhyw welliant wedi bod yn ymddygiad, hunan-werth neu bresenoldeb y plant yn yr ysgol. Bydd hyn yn ein helpu i wybod a yw cymryd rhan yn eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth i'r plant a'r teuluoedd, dros gyfnod o amser.

Mae hefyd yn bwysig dweud, os ewch trwodd i'r cam cyd-ddylunio gyda'ch partner gwerthuso, y gall fod newidiadau i'r canlyniadau yr oeddech wedi bwriadu eu mesur.

Os nad ydych yn fodlon gweithio gyda'ch gwerthuswr i'n helpu i fesur effaith eich prosiect, nid yw ein cyllid yn iawn i chi.

13. I sicrhau ein bod yn cyrraedd y plant, pobl ifanc a'r teuluoedd iawn, rydym yn disgwyl iddynt fod wedi cael eu hadnabod neu atgyfeirio gan asiantaethau statudol perthnasol. Dewiswch ba asiantaeth statudol sy'n atgyfeirio at eich prosiect.

Er y gall ystod o wahanol sefydliadau gyflwyno cais, rhaid i blant fod wedi cael eu hatgyfeirio at eich prosiect gan wasanaeth neu gorff cyhoeddus.

Wrth wasanaeth cyhoeddus, golygwn wasanaeth wedi eu talu amdanynt a'u darparu gan y llywodraeth. Felly, i fod y nghymwys, dylech dderbyn achosion wedi eu hatgyfeirio gan:

- ◆ Yr heddlu
- ◆ Timau troseddwy'r ifanc
- ◆ Ysgolion a staff bugeiliol
- ◆ Timau tai
- ◆ Hybiau diogelu aml-asiantaeth / hybiau ecsbloetio aml-asiantaeth
- ◆ Timau atgyfeirio diogelwch cymunedol (neu dimau gwarchod y cyhoedd)
- ◆ Cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth (MARAC)
- ◆ Canolfannau aciwt
- ◆ Gwasanaethau plant
- ◆ Gofal cymdeithasol
- ◆ Elusennau sy'n gweithio ar ran corff cyhoeddus (fel awdurdod lleol, heddlu neu'r GIG)

Os nad yw'r plant yn cael eu hatgyfeirio at eich prosiect gan wasanaeth cyhoeddus, nid yw cyllid y rownd hon i chi.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r sefydliad sy'n atgyfeirio'n 'wasanaeth cyhoeddus', dylech e-bostio grants@youthendowmentfund.org.uk gadarnhau cyn parhau â'ch cais.

Ydych wedi darllen dogfennau canllaw atodedig yr YEF?

Mae ein dogfennau canllaw yno i'ch helpu i benderfynu'n gywir a fyddai cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuencid yn iawn i chi.

Ein nod yw sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl fel partner yr YEF. Mae hynny'n golygu y bydd angen i chi fod wedi darllen diweddariad y prospectws, ein prospectws, gwybodaeth am ein gwerthusiadau, a'r canllawiau ar ein harchif data.

Cam dau: y cais llawn

Mae ein cais llawn wedi'i rannu'n saith rhan fel a ganlyn:

1. Eich sefydliad

Rydym eisiau gwybod am eich rôl fel y bobl sy'n cyflwyno'r cais ar ran eich sefydliad, sut fath o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo, a ydych yn gweithio mewn partneriaeth a phwy yw'r partneriaid hynny. Mae'r rhan yma er gwybodaeth i ni'n unig ac nid er mwyn asesu cryfder eich cais.

Awgrym gwneud cais

Os yw eich cais yn cael ei ysgrifennu gan rywun allanol, cofiwch hefyd gynnwys person cyswllt yn eich sefydliad fel y gallwn roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais cyn gynted â phosib.

2. Gwella amrywiaeth y sefydliadau a ariannwn

Rydym yn ymrwymedig i fod yn gyllidwr amrywiol a chynhwysol. Credwn fod amrywiaeth yn gyrru arloesi, gwella amrywiaeth meddwl a phrofiad ac yn ein helpu i gynrychioli a gwasanaethu'r bobl ifanc y ceisiwn eu cefnogi yn y ffordd orau.

Mae'r rhan yma'n gofyn i chi rannu gwybodaeth am ba mor fawr yw eich sefydliad, amrywiaeth eich tîm arweinyddiaeth, amrywiaeth, oed a rhywedd y plant y gobeithiwch eu cefnogi, a ble fydd eich gweithgaredd yn digwydd. Ni ddefnyddiwn y rhan yma i asesu cryfder eich cais. Bydd y wybodaeth yn helpu i sicrhau ein bod yn partneru ag ystod amrywiol o sefydliadau.

3. Deall y gweithgareddau

Yn y rhan yma rydym eisiau deall manylion eich prosiect. Rydym eisiau gwybod am ba weithgareddau y bwriadwch eu cynnal a ble, pa mor hir y byddant yn para, ac yn anad dim pa ganlyniadau y gobeithiwch a ddaw ohonynt.

Rydym yn chwilio'n arbennig am geisiadau sy'n disgrifio'n glir iawn beth yw'r profiad a'r llinell amser o *safbwynt y plentyn neu'r teulu*. Pa brofiadau a gawsant, ac ym mha drefn? Mae'n debyg y bydd hyn yn haws os bydd eich cais yn disgrifio un siwrne i'r rhan fwyaf o deuluoedd (er enghraifft, mae pob teulu'n cymryd rhan mewn sesiwn therapi wythnosol, gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig, dros 24 wythnos). Yn y rownd hon, mae gennym lai o ddiddordeb mewn ariannu geisiadau neu weithgaredd nad ydynt, o safbwynt yr ymarferydd, yn ymyriadau uniongyrchol gyda pherson ifanc neu eu gofalwyr (er enghraifft, newid system neu hyfforddiant i staff). Bydd gennym ddiddordeb mawr yn hyn mewn rowndiau nes ymlaen. Dysgwch fwy am ein cynlluniau at y dyfodol yn ein prospectws ar gyfer 2021.

4. Eich tystiolaeth bresennol a'ch hanes perfformiad blaenorol

Yn y rhan yma, rydym yn ceisio deall pa mor debygol fydd eich prosiect o lwyddo ac a fydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid sydd mewn golwg. Yn ein rowndiau grantiau thematig, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau sy'n darparu'n barod, sy'n gallu dangos peth tystiolaeth i ni eu bod yn gweithio, ac sy'n barod i gael eu gwerthuso'n drylwyr (fel hap-dreial rheoli). Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn ystyried ceisiadau mewn cam gwerthuso cynharach (yn enwedig ar gyfer rhaglenni **lleihau gwrthdaro rhieni a chamdrin domestig**, lle mae llai o dystiolaeth i ni adeiladu arni). Ond mae'n bwysig dweud **ein bod er hynny eisiau gweld peth tystiolaeth y byddai'r rhaglenni cynharach hyn yn effeithiol**, p'un ai'n dystiolaeth o theori newid (yn disgrifio eich amcanion hirdymor a mapio ar-yn-ôl i egluro sut fydd eich ymyriad yn cyrraedd y pwynt hwnnw), tystiolaeth academaidd neu dystiolaeth o sectorau eraill.

Ym mhob achos, ond yn enwedig ar gyfer **rhaglenni rhianta a therapi teuluol**, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau fydd yn barod am dreial trylwyr ymhen dwy flynedd.

5. Risg

Mae risg gyda phob prosiect. Yn y rhan yma rydym eisiau sicrhau eich bod wedi meddwl am y risgiau'n fanwl a sut y gallwch efallai eu lliniaru.

Byddwn yn gofyn i chi am y risgiau'n ymwneud â chyrraedd y bobl ifanc y bwriadwch weithio gyda nhw, y risgiau'n gysylltiedig â gweithio yn yr ardal, y risg i ddarparu ac i reoli'r prosiect. Byddwn hefyd eisiau deall eich profiad o ddarparu'r math yma o weithgaredd yn y gorffennol a'ch profiad o weithio â'r grŵp o blant yr ydych yn ceisio eu cyrraedd.

6. Y bobl ifanc y byddwch yn gweithio gyda nhw

Yn y rhan yma ceisiwn ennill dealltwriaeth ddofn o'r math o blentyn y byddwch yn gobeithio gweithio gyda nhw, a faint o blant y gobeithiwch weithio gyda nhw. Mae'n bwysig ein bod yn ariannu sefydliadau sy'n barod i gael eu gwaith wedi'i werthuso'n drylwyr, neu'n barod am hynny ymhen dwy flynedd. Am y rheswm hwn, edrychwn yn ofalus ar faint o blant y credwch y gallwch eu cyrraedd oherwydd mae'n bwysig cael sampl digon mawr ar gyfer y math o werthusiadau y dymunwn eu gwneud.

7. Cyllideb

Yn y rhan yma, gofynnwn i chi roi crynodeb o faint y bwriadwch ei wario ar y prosiect. Ar y pwynt hwn, rydym eisiau gwybod faint y byddwch yn ei wario ar lefel uchel, o flwyddyn i flwyddyn, i ddarparu'r prosiect fel y gobeithiwch (gan gynnwys costau'r prosiect, gorbenion, staff a chyfarpar).

Mae'r broses o wneud cais i'r YEF yn broses o berffeithio wrth fynd. Os symudwch ymlaen i ail gam y cais, byddwch yn cael eich pario gyda gwerthuswr gan weithio ar ddyluniad terfynol y prosiect gyda'ch gilydd. Rydym yn deall y byddai newid eich cynllun yn golygu newidiadau i'ch cyllideb. Dyna pam nad ydym yn gofyn i chi am gyllideb fanwl ar y pwynt hwn.

Am fwy o fanylion am beth yn union yr ydym yn chwilio amdano mewn ymateb i bob cwestiwn yn y rhannau uchod, darllenwch y rhan nesaf.

Canllaw cam-wrth-gam i ateb y cwestiynau yn y cais llawn

Deall y gweithgareddau

(gan ddechrau o gwestiwn 34 yn y ffurflen gais)

34. Pa wahaniaeth, o dderbyn cyllid, y credwch fydd eich prosiect yn ei wneud? O dderbyn cyllid, beth y gobeithiwch fydd eich prosiect yn ei gyflawni? [250 gair ar y mwyaf]

Mae hyn yn ffordd arall o siarad am y gwahaniaeth y gobeithiwch ei wneud o ganlyniad i'ch gwaith. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y gwahaniaeth (canlyniadau) y mae prosiect yn ceisio ei wneud i blant a phobl ifanc, a'r gweithgareddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Felly os yw eich rhaglen yn cynnwys therapi i'r teulu cyfan, nid y sesiwn therapi ei hun yw'r gwahaniaeth neu'r canlyniad, ond y newidiadau ym mywydau'r plant a'u teuluoedd o ganlyniad. Er enghraifft gallai hyn fod yn hunan-werth gwell, neu lai o ymddygiad ymosodol mewn person ifanc.

Bydd angen i chi sôn am y gwahaniaethau pwysicaf y credwch fydd eich prosiect yn ei wneud i wella bywydau'r plant. Os byddwn yn rhoi grant i chi, gofynnir i chi adrodd yn ôl ar y rhain yn fanwl.

- ♦ Ar gyfer pob un o'ch gwahaniaethau, byddwch yn gryno gan siarad am un newid pwysig yn unig. Peidiwch â rhoi rhestr o wahaniaethau neu newidiadau.
- ♦ Bydd y gwahaniaeth yn digwydd yn ystod yr amser y byddwch mewn cysylltiad â'r plant. Gall fod yn newid bach neu'n un parhaol.

35. Beth yw'r angen / galw am eich prosiect? Pa dystiolaeth sydd o hyn? [250 gair ar y mwyaf]

Rydym eisiau gwybod pam y credwch fod angen eich prosiect ar y grŵp penodol o blant, pobl ifanc a theuluoedd yr ydych eisiau gweithio gyda nhw. Rhannwch unrhyw dystiolaeth o blaid eich rhesymu.

Er enghraifft, a oes problem gyda chamddefnyddio cyffuriau yn yr ardal(oedd) y gobeithiwch weithio ynddi? A oes ystadegau gan ddarparwyr gofal iechyd neu awdurdod lleol sy'n dangos bod angen?

Awgrym gwneud cais

Eisiau gwybod mwy am sut y gallwch roi dystiolaeth i ni fod angen eich prosiect? Ymunwch ag un o'h gweithdai a gofyn i'n tîm asesu. Cofrestrwch ar ein gwefan yma.

36. Os ydych yn gweithio gyda theuluoedd, dewiswch y ddau brif ganlyniad y gobeithiwch ddod allan o'r prosiect:

- ♦ Cefnogi sgiliau, arferion ac ymddygiad rhieni neu ofalwyr
- ♦ Lleihau camdrin plant
- ♦ Lleihau gwrthdaro teuluol a chefnogi rhyng-gysylltu positif yn y teulu

- ♦ Cefnogi perthnasoedd da rhwng rhieni neu ofalwyr
- ♦ Lleihau camdrin domestig
- ♦ Lleihau problemau iechyd meddwl gan rieni neu ofalwyr
- ♦ Lleihau camddefnyddio cyffuriau gan rieni neu ofalwyr
- ♦ Lleihau ymhél â thrais gan aelodau o'r teulu
- ♦ Cefnogi modelau rôl positif yn y teulu
- ♦ Rhywbeth arall – os dewiswch hwn, atebwch mewn blwch testun rhydd
- ♦ Amherthnasol

Os bwriadwch weithio dim ond gyda phlant mewn gofal, dewiswch y blwch 'Amherthnasol'

Fformat ateb – blwch ticio / cwymplen – dau opsiwn yn unig

Canlyniadau yw'r newidiadau y gobeithiwch weld eich prosiect yn eu gwneud i fywydau'r plant a'r teuluoedd. Dewiswch y ddau newid mwyaf perthnasol y credwch fydd eich prosiect yn ei wneud. Ac os bydd eich prosiect yn gweithio gyda phlant sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl, dewiswch yr opsiwn 'Amherthnasol'.

37. Mae ein ffocws ar roi canlyniadau positif i blant a phobl ifanc. Isod mae ein rhestr ni (YEF) o ganlyniadau plant ar gyfer y rownd hon. Os gwyddoch y canlyniadau plant y bydd eich prosiect yn ceisio eu cyflawni, dewiswch y ddau brif ganlyniad. Gallai hyn fod drwy weithio gyda'r rhieni, gofalwyr neu aelodau eraill o'r teulu.

- ♦ Lleihau problemau ymddygiad
- ♦ Lleihau ymddygiad ymosodol
- ♦ Lleihau ymddygiad byrbwyll
- ♦ Cefnogi ymddygiad positif a helpu eraill
- ♦ Lleihau gorbryderu a nerfusrwydd
- ♦ Cefnogi hunan-werth
- ♦ Lleihau agweddau gwrthgymdeithasol neu negyddol
- ♦ Cefnogi diddordeb, presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol
- ♦ Lleihau camddefnyddio cyffuriau
- ♦ Lleihau troseddu di-drais
- ♦ Lleihau troseddu treisgar
- ♦ Rhywbeth arall – os dewiswch hwn, atebwch mewn blwch testun rhydd
- ♦ Ddim yn siŵr

Mae ffocws rhai o'r prosiectau sy'n gwneud cais drwy'r rownd hon ar aelodau eraill o'r teulu (e.e. rhieni a gofalwyr) ac efallai na fyddant yn gwybod sut y gallai'r prosiect effeithio ar blant. Os felly, dewiswch y blwch 'Ddim yn siŵr'

Fformat ateb – blwch ticio / cwymplen – dau opsiwn yn unig

Canlyniadau yw'r newidiadau y gobeithiwch weld eich prosiect yn eu gwneud i fywydau'r plant a'r teuluoedd. Dewiswch y ddau newid mwyaf perthnasol y credwch fydd eich prosiect yn ei wneud.

38. Yn y rownd hon, mae gennym ddiddordeb mewn ariannu a dysgu am y grwpiau canlynol o weithgareddau. Dewiswch ba weithgaredd y mae eich prosiect yn disgyn iddo:

GRŴP A:

- ♦ Ymyriadau addysg a hyfforddiant i rieni (gan gynnwys ar gyfer plant mewn gofal) sy'n canolbwyntio ar helpu rhieni neu ofalwyr a'u plant i ymddwyn a chreu perthnasoedd positif.
- ♦ Ymyriadau therapi teuluol (gan gynnwys ar gyfer plant mewn gofal) sy'n cynnig therapiau ffurfiol rhwng therapydd hyfforddedig a'r teulu.

GRŴP B:

- ♦ Ymyriadau i leihau gwrthdaro rhwng rhieni, wedi eu dylunio'n benodol i wella'r berthynas rhwng rhieni neu ofalwyr.
- ♦ Ymyriadau camdrin domestig, wedi eu dylunio'n benodol i atal a lleihau niwed i oedolion, ac yn aml iawn i liniaru'r effaith ar blant o ddod i gysylltiad â chamdrin domestig.

I gael gwybod mwy am y mathau o raglenni rhianta, therapi teuluol, lleihau gwrthdaro rhwng rhieni ac ymyriadau camdrin domestig sy'n rhoi'r mwyaf o dystiolaeth, darllenwch ein crynodeb o'r adolygiad tystiolaeth a wnaed gan ein partneriaid yn y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar.

Mae hefyd yn werth nodi y byddem yn hoffi ariannu rhaglenni i blant mewn gofal ar draws Grwpiau A a B. Er enghraifft, gallai hynny olygu rhaglenni therapi teuluol i blant a phobl sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl, neu ymyriadau gwrthdaro rhieni ar gyfer teuluoedd maeth.

39. Disgrifiwch y gweithgaredd y mae tîm a phartneriaid eich prosiect eisiau ei ddarparu? Beth yw profiad y plant, pobl ifanc a'r teuluoedd sy'n rhan o'ch prosiect? Beth yw llinell amser y gweithgareddau o'u safbwynt nhw? Gofynnwn y cwestiwn hwn i asesu a fydd beth y bwriadwch ei wneud yn debygol o arwain at y canlyniadau sydd gennych mewn golwg, felly dylech ddisgrifio hyn mor glir â phosib.

Byddwch mor glir a manwl â phosib. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o'ch cais.

Disgrifiwch yr holl weithgareddau sydd mewn golwg gennych, pwy sy'n eu darparu, pwy sy'n cymryd rhan ynddynt, pa mor hir fydd pob gweithgaredd yn ei gymryd a pha mor aml fydd person ifanc yn gwneud y gweithgaredd. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn deall y profiad a'r llinell amser o safbwynt y plentyn.

Cwestiynau y dylech feddwl am eu hateb yn eich ymateb:

- ♦ Pa weithgareddau penodol fydd plentyn, person ifanc neu deulu cyfan yn eu derbyn?
- ♦ Os ydych yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr, a fydd y plentyn yn rhan o'r un gweithgareddau neu a fydd gennych weithgaredd gwahanol â'r oedolion?
- ♦ Pwy sy'n darparu / rhedeg eich gweithgareddau? Am ba hyd? Yn ble?
 - ♦ Er y bydd gwahanol gamau eich prosiect yn debygol o amrywio o brosiect i brosiect, gallai eich cais:

Cam un: Egluro sut y mae plant, pobl ifanc a theluoedd yn cael eu recriwtio i'ch prosiect (e.e. drwy gael eu hatgyfeirio gan ysgolion lleol)

Cam dau: Egluro cam cyntaf eich gweithgareddau (e.e. cwrdd â'r teulu mewn lle diogel, fel eu cartref, dros gyfnod o chwe wythnos, er mwyn creu ymddiriedaeth rhwng y teulu a'ch staff allgymorth teuluol hyfforddedig). Dylech hefyd egluro pam fod hyn yn bwysig (e.e. mae creu ymddiriedaeth wedi bod yn bwysig yn y gorffennol er mwyn recriwtio, ennyn diddordeb a chadw cyfranogwyr ar y prosiect).

Cam tri: Egluro cam (au) nesaf eich gweithgareddau (e.e. sesiynau therapi dros 12 wythnos gyda phlant, wedi eu darparu gan therapydd hyfforddedig a ffocws ar leihau ymddygiad ymosodol. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr â sesiynau hyfforddiant i rieni a gofalwyr dros 12 wythnos, fydd hefyd yn cael eu rhedeg gan therapydd hyfforddedig, gyda ffocws ar wella sgiliau rhianta). Cysylltu'n ôl i beth y gobeithiwch fydd eich prosiect yn ei gyflawni gan gofio cyfeirio at eich ffynonellau, er enghraifft eich data eich hun, gwerthusiadau blaenorol, neu lenyddiaeth academaidd ehangach (e.e. dangoswyd bod y sesiynau hyn yn lleihau ymddygiad ymosodol ac annog ymddygiad positif mewn plant, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o ymhél â thrais yn y dyfodol).

40. Eglurwch beth sy'n digwydd ar ddiwedd eich prosiect? Unwaith y daw plentyn, person ifanc a / neu deulu at ddiwedd gweithgareddau'r prosiect, sut y byddwch yn eu pontio allan o'ch prosiect? [250 gair ar y mwyaf]

Rydym eisiau gwybod beth sy'n digwydd pan ddaw eich prosiect i ben.

Er enghraifft, a ydych yn cyfeirio plentyn neu deulu ymlaen at wasanaeth cymorth arall? Pwy sy'n rhedeg y gwasanaethau hyn? A ydych yn gwirio bod plentyn neu deulu'n gymwys i dderbyn y gwasanaethau hynny?

Byddwch mor benodol â phosib

41. Ble y mae'r gweithgareddau'n cael eu darparu'n bennaf?

Bydd gennych restr o leoliadau lle gallai eich gweithgaredd gael ei ddarparu.

Gallwch ddewis mwy nag un lleoliad.

Os dewiswch fwy nag un lleoliad, eglurwch pam yn y blwch testun rhydd.

42. Ar gyfartaledd, am ba hyd y mae'r gweithgaredd hwn gyda phlant a / neu deuluoedd yn para? Rhowch faint o fisoedd. Pam fod hyn yn para am hyn o amser? Nifer y misoedd a thestun rhydd [150 gair ar y mwyaf]

Atebwch hyn o safbwynt y teulu neu'r plentyn sy'n rhan o'ch gweithgaredd, nid o safbwynt faint o amser y mae'n ei gymryd i chi redeg y gweithgaredd.

Er enghraifft, os yw rhaglen therapi teuluol yn rhedeg am 10 mis (mae eich staff yn ei redeg am hyn o amser), ond bydd un teulu'n derbyn eu therapi am gyfnod o ddeufis, dylech roi dau fis.

Eich tystiolaeth bresennol a'ch hanes blaenorol

43. Rydych nawr wedi egluro'r gwahaniaeth y mae eich gweithgaredd yn gobeithio ei wneud i bobl ifanc, a beth yw eich gweithgaredd.

Pa mor hyderus ydych y bydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid hwn?

Beth wnaeth i chi ddewis yr opsiwn hwn? Dylech gynnwys unrhyw eglurhad o sut y mae'r gweithgaredd yn achosi'r newid hwn. [500 gair ar y mwyaf]

Dylech gynnwys dolen / cyfeirnod at unrhyw dystiolaeth ategol – ceisiwch osgoi dolenni at fideos neu eitemau aml-gyfrwng oherwydd ni allwn asesu'r rhain fel rhan o'r cais.

Ceisiwch roi disgrifiad gonest ar sail beth sydd eisoes yn hysbys am effaith eich prosiect.

Gofynnir i chi ddewis uchel, canolig neu isel yn ôl pa mor hyderus ydych y bydd eich gweithgaredd yn arwain at newid. Yna gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel hyder honno. Ar gyfer unrhyw dystiolaeth neu ffynhonnell y cyfeiriwyd atynt, dylech gynnwys dolen / cyfeirnod.

- Gallech ddewis **lefel hyder uchel** os oes tystiolaeth y bydd eich gweithgaredd yn gweithio (gan sefydliad arall neu o weithio mewn lleoliad gwahanol), os ydych wedi bod yn rhedeg y gweithgaredd hwn ers tro ac mae gennych dystiolaeth gadarn ei fod yn gweithio.
- Gallech ddewis **lefel hyder ganolig** os oes gan eich prosiect theori newid cryf wedi'i chefnogi gan y dystiolaeth bresennol ac rydych wedi casglu data monitro, ymgysylltu neu foddhad sy'n awgrymu bod modd gweithredu eich prosiect yn llwyddiannus.
- Gallech ddewis **lefel hyder isel** os yw'n brosiect newydd mewn cam arloesi.

44. Os hoffech gynnwys unrhyw wybodaeth ategol a / neu werthusiadau o'ch prosiect sydd ar gael yn gyhoeddus, dylech eu cynnwys yma ynghyd â dolen / cyfeirnod.

Os oes gennych theori newid a / neu fodel rhesymeg yr hoffech ei rannu gyda ni, dylech lanlwytho'r ffeiliau yma.

Dylech sicrhau mai tystiolaeth ydyw, a'i bod yn seiliedig ar wybodaeth, ac nid yn ddolenni i fideos.

Os yw eich prosiect wedi bod drwy werthusiad annibynnol yn y gorffennol ac mae adroddiad ar gael, a allwch ei lanlwytho os gwelwch yn dda.

Er nad yw'n un o'r gofynion, bydd yn cryfhau eich cais. Felly hefyd gyda phrosiectau Grŵp B; er y disgwylwch i lai o dystiolaeth fod ar gael i adeiladu arni, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i raglenni lle gwnaed gwerthusiadau cynnar (fel astudiaeth ymarferoldeb). I gael gwybod mwy am beth a olygwn wrth werthusiad, a'i wahanol gamau, mae diagram defnyddiol ar gael ar dudalen 7 y diweddariad i'n prosbectws.

45. Disgrifiwch y math o blant a / neu deuluoedd y gobeithiwch weithio gyda nhw? Opsiynau: Testun rhydd [250 gair]

Bydd gwybod pwy yn union y gobeithiwch eu cyrraedd yn ein helpu i ddeall a fydd eich prosiect yn gweithio gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd y mae gennym fwyaf o ddiddordeb yn eu cefnogi. Byddwch yn benodol a manwl.

Cwestiynau y dylech feddwl am eu hateb yn eich ymateb:

- ♦ A allwch egluro'n glir pwy fydd yn elwa o'ch prosiect? Beth yw'r heriau yn eu bywydau? *Am fwy o fanylion am yr anghenion yr ydym eisiau i'r prosiectau geisio eu cwrdd, ewch i gwestiynau 35 a 36.*
- ♦ Sut y byddwch yn sicrhau y bydd plant, rhieni a gofalwyr yn gallu cymryd rhan yn eich prosiect? Er enghraifft, a allwch gynnig gwasanaeth o gwmpas oriau gwaith y rhieni, neu ddarparu i blant mewn ysgol?

46. Sut y mae plant, pobl ifanc (a theuluoedd lle bo'n briodol) yn cael eu hatgyfeirio atoch? Os oes gennych nifer o lwybrau atgyfeirio, dywedwch gan bwy y mae'r rhan fwyaf yn dod.

A allwch egluro beth sy'n digwydd i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio at eich prosiect – beth arall allwch chi neu rywun arall ei gynnig?

Fformat ateb: Testun rhydd [250 gair]

Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sy'n cynnwys atgyfeiriad at eich prosiect gan gorff statudol.

Cofiwch egluro'n fanwl sut y bydd yr atgyfeiriad yn digwydd. Os oes gennych berthynas yn barod â'r sefydliadau fydd yn atgyfeirio atoch, disgrifiwch hon yma.

Gallai ateb da i'r cwestiwn hwn gynnwys tystiolaeth o:

- ♦ Rhwydwaith o bartneriaid statudol y gweithiwch gyda nhw'n effeithiol i adnabod plant a'u teuluoedd.
- ♦ Hyfforddiant staff i reoli atgyfeiriadau gan bartneriaid statudol.

Risg

47. Yn aml iawn, mae sefydliadau'n cael trafferth cyrraedd y plant a'r pobl ifanc y maen nhw eisiau gweithio gyda nhw. Pa risg sy'n bodoli na allwch gyrraedd y math o blant yr ydym yn ceisio eu cyrraedd? Beth wnaeth i chi ddewis yr opsiwn hwn? (Helpwch ni i ddeall sut y byddwch yn cyrraedd y plant hyn ac yn osgoi cael mathau eraill o blant yn defnyddio'r gweithgaredd).

Rydym yn gofyn i chi ymateb yn benodol i'r risg o gyrraedd, ennyn diddordeb a chadw plant a phobl ifanc ar eich prosiect. Mae recriwtio pobl ifanc i brosiect bob amser yn anodd felly rydym yn disgwyl y bydd rhai risgiau i wneud hyn yn effeithiol, ac eisiau sicrhau eich bod wedi meddwl am y risgiau hyn a'u lliniaru yn y gorffennol.

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis un o bum lefel risg o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, cymedrol, isel). Yna gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel risg honno.

Yn eich blwch testun rhydd, dylech ddisgrifio beth y byddech yn ei wneud i liniaru'r risg os oes gennych eisoes gynllun yn ei le i wneud hyn.

Gallai ateb da i'r cwestiwn hwn gynnwys tystiolaeth o:

- ♦ Eich profiad o gyrraedd y plant a'r teuluoedd yr ydym eisiau eu cyrraedd drwy'r rownd grantiau hon.
- ♦ Eich profiad o fonitro siwrneiau'r plant a'r teuluoedd sy'n cymryd rhan yn eich gweithgareddau.
- ♦ Lefelau uchel o gymryd rhan a chadw plant ayyb ar eich rhaglenni. Gallai hyn hefyd gynnwys rhestr aros i gymryd rhan.
- ♦ Gweithlu gyda chymwysterau darparu cryf (gan gynnwys cymwysterau perthnasol ffurfiol a / neu staff gyda phrofiadau tebyg i'r plant neu'r teuluoedd yr ydych yn gweithio gyda nhw).
- ♦ Cynnwys y plant a'r teuluoedd yn y gwaith o ddylunio eich prosiectau.
- ♦ Brandio da a chllir sy'n apelio i'r teuluoedd a'r plant yr ydych yn ceisio eu cyrraedd.

48. Yn aml iawn mae sefydliadau'n cael trafferth darparu'r gweithgaredd y gwnaethant gais i'w ddarparu. Pa risg sydd na fyddwch yn gallu darparu'r ymyriad hwn yn llwyddiannus? Beth wnaeth i chi ddewis yr opsiwn hwn? [500 gair ar y mwyaf]

Rydym eisiau i chi ymateb drwy nodi'r risgiau cyffredinol i weithredu'r prosiect. Gallai hyn gynnwys risgiau fel gallu recriwtio'r staff iawn, trefnu eich prosiect mewn pryd, y risg y bydd angen parhau gyda mesurau pellhau cymdeithasol, ayyb.

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis un o bum lefel risg o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, cymedrol, isel). Yna gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel risg honno.

Yn eich blwch testun rhydd, dylech ddisgrifio beth y byddech yn ei wneud i liniaru'r risg os oes gennych eisoes gynllun yn ei le i wneud hyn.

49. Pa brofiad sydd gennych o ddarparu'r math yma o weithgaredd i'r math yma o blant, pobl ifanc neu deuluoedd? [100 gair ar y mwyaf]

Cofiwch ateb y ddau ran i'r cwestiwn:

- ♦ **Rhan un:** Pa brofiad sydd gennych o'r math yma o weithgaredd?
- ♦ **Rhan dau:** Pa brofiad sydd gennych o'r math yma o berson ifanc neu deulu?

Efallai bod gennych brofiad o'r naill ond nid o'r llall. Mae hynny'n iawn, ond cofiwch egluro.

Cofiwch hefyd, i fod yn llwyddiannus rhaid i'ch prosiect (a allai gynnwys eich sefydliad a / neu bartner) fod wedi darparu'r gweithgaredd hwn am o leiaf 12 mis cyn i chi gyflwyno eich cais. Er y byddwn yn ystyried prosiectau sydd wedi darparu am dros 6 mis, **ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau newydd sbon na chawsant erioed eu darparu.**

Cwestiynau y dylech feddwl am eu hateb yn eich ymateb:

- ♦ Am ba hyd y mae eich staff neu bartneriaeth wedi bod yn darparu'r gweithgaredd hwn?
- ♦ Os ydych yn cyflwyno cais ar-y-cyd ag eraill, disgrifiwch brofiadau'r gwahanol aelodau o'ch partneriaeth. A oes gan un sefydliad brofiad o ddarparu dros nifer o flynyddoedd? A yw sefydliad arall yn arbenigo mewn gweithio gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd yr ydym fwyaf eisiau eu helpu?

50. Pa addasiadau a wnaethoch i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad cyfartal ac yn gallu cymryd rhan yn eich gweithgareddau? [250 gair ar y mwyaf]

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd ymylol – gan gynnwys plant a phobl ifanc du ac Asiaidd a phlant sydd wedi bod mewn gofal – wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn ymrwymedig i ddeall a rhoi sylw i'r anghydraddoldeb hwn.

Rydym eisiau sicrhau bod y prosiectau a ariannwn yn cyrraedd yr holl blant sydd angen cymorth arnynt. Rydym eisiau gwybod sut y byddwch yn sicrhau y bydd plant a theuluoedd o gefndiroedd ymylol yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn eich prosiect. Gallai hyn gynnwys pethau fel cynhyrchu deunyddiau hawdd darllen i blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau (SEND), sicrhau bod eich rhaglen yn cydnabod ac addasu i wahaniaethau diwylliannol (er enghraifft drwy weithio gyda grwpiau cymunedol lleol i adolygu'r adnoddau recriwtio) neu weithio gyda'ch awdurdod lleol i estyn allan at deuluoedd lle mae'r plant yn hysbys i dimau gwasanaethau plant.

51. Mae gennym ddiddordeb yn lefel profiad y bobl sy'n darparu'r gweithgareddau. A allwch sôn ychydig am bwy yw'r bobl hyn (gwirfoddolwyr neu staff cyflogedig), eu profiad ar gyfartaledd, unrhyw hyfforddiant neu gymwysterau proffesiynol a fyddai ganddynt, neu unrhyw gymorth, goruchwyliaeth neu ddatblygiad proffesiynol parhaus sydd angen iddynt ei dderbyn fel rhan o'u rôl? [100 gair ar y mwyaf]

Dylech sicrhau wrth ateb bod gennym ddealltwriaeth glir o:

- ◆ Cymwysterau a phrofiad eich staff (gan gynnwys eu profiadau byw).
- ◆ Yr hyfforddiant sydd ei angen cyn gallu darparu'r prosiect.
- ◆ Y cymorth, hyfforddiant a'r oruchwyliaeth y byddwch yn eu rhoi i staff a / neu wirfoddolwyr sy'n darparu'r gweithgareddau

Efallai y byddwch eisiau ystyried pethau fel:

- ◆ Hyfforddi staff ar drawma a sut i weithio gyda theuluoedd mewn sefyllfaoedd bregus.
- ◆ Sut fydd cymwysterau a hyfforddiant y staff yn sicrhau bod eich prosiect yn ddiwylliannol briodol i'r teuluoedd y gobeithiwch weithio gyda nhw.

52. Yn aml iawn mae sefydliadau'n cael trafferth darparu'r gweithgaredd yn y lleoliad sydd mewn golwg. Pa risg sydd na fyddwch yn gallu darparu'r ymyriad hwn yn llwyddiannus yn y lle hwn? Beth wnaeth i chi ddewis yr opsiwn hwn? [250 gair ar y mwyaf]

Gofynnwn i chi'n benodol ymateb i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'ch lleoliad (daearyddol a / neu le penodol). Dylech gyfeirio at leoliadau daearyddol yn ogystal ag at gwestiwn 4l wrth ateb y cwestiwn hwn.

Gofynnir i chi'n gyntaf ddewis un o bum lefel risg o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, cymedrol, isel). Yna gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel risg honno.

Yn y blwch testun rhydd, dylech ddisgrifio beth y byddech yn ei wneud i liniaru'r risg os oes gennych eisoes gynllun yn ei le i wneud hyn.

53. Yn aml iawn mae sefydliadau'n cael trafferth darparu'r gweithgaredd oherwydd nad ydynt wedi rhagweld pam y gallai pethau fynd o'i le. Ar wahân i'r pethau a sonioch amdanynt yn barod, beth yw'r brif risg na fyddwch yn gallu darparu'r ymyriad hwn? [20 gair ar y mwyaf]. Pa mor debygol yw hyn? Pam ddewisoch y lefel yma o risg? [250 gair ar y mwyaf]

Dyma'ch cyfle i gynnwys mwy o fanylion am risg yr ydych wedi'i adnabod i'ch prosiect nad oedd yn disgyn i un o'r categorïau uchod.

Defnyddiwch y rhan yma i dynnu sylw at unrhyw risgiau sy'n unigryw i'ch prosiect neu gyd-destun darparu.

Yn gyntaf bydd gennych flwch testun rhydd lle gofynnwn i chi nodi'r brif risg na fyddwch yn gallu darparu'r prosiect.

Yna gofynnir i chi ddewis un o bum lefel risg o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, cymedrol, isel). Yn olaf, gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel risg honno.

Y bobl ifanc y byddwch yn gweithio gyda nhw

54. Os bydd eich cais yn llwyddo, bydd nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd y byddwch yn darparu'r prosiect iddyn nhw'n cael eu dylanwadu gan gapasiti eich prosiect a'r math o astudiaeth werthuso a wneir. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanwl gyda'ch gwerthuswr a'r YEF. Oherwydd ein bod eisiau i brosiectau a ariannwn fod â ffocws ar ganlyniadau plant a phobl ifanc, mae angen i ni weld prosiectau'n gallu gweithio gydag o leiaf 60-100 o blant a phobl ifanc drwy gydol y prosiect sydd mewn golwg.

Beth yw'r uchafswm a lleiafswm o blant a phobl ifanc y gallech ddarparu gweithgareddau iddynt drwy gydol y prosiect sydd gennych mewn golwg?

Drwy'r rownd gyllido hon, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau Grŵp A (rhaglenni rhianta a therapi teuluol) sy'n barod i gael eu gwerthuso'n drylwyr cyn blwyddyn 3. Er yn cydnabod y bydd prosiectau Grŵp B (ymyriadau lleihau gwrthdaro rhieni a chamdrin domestig) yn llai parod am werthusiad trylwyr o'u heffaith, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sydd eisoes wedi casglu tystiolaeth (er enghraifft drwy astudiaeth ymarferoldeb). I gael gwybod mwy am beth a olygwn wrth werthusiad, a'i wahanol gamau, mae diagram defnyddiol ar gael ar dudalen 7 y [diweddariad i'n prosiectws](#).

Mae hyn yn golygu:

- ♦ Y dylai gweithgareddau **GRŴP A** ddangos y byddant yn gweithio gydag o leiaf 100 o blant neu deuluoedd drwy gydol y prosiect.
- ♦ Y dylai gweithgareddau **GRŴP B** sydd angen eu gwerthuso'n gynt ddangos cynlluniau i weithio gydag o leiaf 60 o blant neu deuluoedd drwy gydol y prosiect.

Y rheswm y gofynnwn y cwestiwn hwn fel hyn yw oherwydd ein bod yn cydnabod ei bod yn cymryd amser i recriwtio plant a'u theuluoedd. Ar yr un pryd, rhaid i chi fod yn darparu i ddigon o bobl ifanc drwy eich prosiect i ni fod yn hyderus y gallwn wneud y math iawn o werthusiad i'n helpu i ddysgu am effaith eich gwaith.

55. a) I faint o blant a phobl ifanc wnaethoch chi ddarparu'r prosiect hwn eleni?

b) Os yw'n berthnasol, i faint o rieni neu ofalwyr wnaethoch chi ddarparu'r prosiect hwn eleni?

c) I faint o blant a phobl ifanc y byddwch yn gobeithio darparu yn y flwyddyn gyntaf?

d) Os yw'n berthnasol, i faint o rieni neu ofalwyr y byddwch yn gobeithio darparu yn y flwyddyn gyntaf?

e) I faint o blant a phobl ifanc y byddwch yn gobeithio darparu yn yr ail flwyddyn?

f) Os yw'n berthnasol, i faint o rieni neu ofalwyr y byddwch yn gobeithio darparu yn yr ail flwyddyn?

g) I faint o blant a phobl ifanc y byddwch yn gobeithio darparu yn y drydedd flwyddyn? (os yw'r cais am dair blynedd)

h) Os yw'n berthnasol, i faint o rieni neu ofalwyr y byddwch yn gobeithio darparu yn y drydedd flwyddyn? (os yw'r cais am dair blynedd)

i) Pa mor uchel yw'r risg na allwch dyfu'r prosiect fel hyn, os byddwn yn ariannu eich prosiect?

j) Pam ddewisoch y lefel yma o risg? [250 gair ar y mwyaf]

Cofiwch wahaniaethu rhwng faint o bobl ifanc y byddwch yn eu cyrraedd, yn ôl blwyddyn, ym mlychau ateb a) – h).

Mae angen i ni sicrhau y byddwch yn cyrraedd digon o blant a theuluoedd fel y gallwn wneud gwerthusiadau sy'n egluro effaith eich gwaith. Yn aml iawn mae'n golygu y gofynnwn i chi gyrraedd nifer sylweddol (e.e. mae'n debyg y bydd angen o leiaf 100 o gyfranogwyr i redeg hap-dreial rheoli, neu fath arall trylwyr o werthusiad). Ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu i fwy o blant a theuluoedd nag y boi angen arnom i wneud gwerthusiad cadarn.

Risg

Byddwn yn gofyn i chi ddewis un o bum lefel risg o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, cymedrol, isel) i egluro beth yw'r risg na allwch dyfu eich prosiect i gyrraedd y nifer yma o bobl ifanc yn ôl y disgwyl. Yna gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel risg honno. Yn y rhan yma, cofiwch hefyd egluro pa fesurau sydd gennych yn eu lle i sicrhau bod plant a theuluoedd yn aros ar y prosiect tan y diwedd (h.y. nad ydynt yn gadael y prosiect cyn iddo orffen).

Mae hyn yn bwysig fel y gallwn weld bod gennych gynllun realistig ar gyfer tyfu eich prosiect a gallu gwneud gwerthusiad llwyddiannus o'ch gwaith.

56. Os gwelwn fod eich prosiect yn gweithio'n wych, byddwn eisiau ei ailadrodd ar draws Cymru a Lloegr. Pe byddem eisiau gwneud hynny, sut fyddai'r ffordd hawsaf

o wneud hynny yn eich barn chi? [dewiswch o'r atebion]

Byddwn yn gofyn i chi'n gyntaf ddewis pa un o'r tri opsiwn isod a fyddai'n hawsaf i chi ei weithredu. Yna gofynnir i chi ddewis un o bedair lefel anhawster o restr o opsiynau (amhosib, anodd, cymedrol, hawdd) i egluro pa mor anodd y credwch fydd yr opsiwn a ddewisoch i'w weithredu. Yn olaf, gofynnir i chi lenwi blwch testun rhydd yn egluro pam y dewisoch y lefel anhawster honno.

- ♦ **Rydych yn dod yn sefydliad mwy gyda chyrhaeddiad cenedlaethol:** Yn y blwch testun rhydd, eglurwch y lefel anhawster a ddewisoch o ba mor anodd fyddai hyn i'w gyflawni a beth a fyddai ei angen arnoch i dyfu'n llwyddiannus yn sefydliad mwy.
- ♦ **Mae eraill yn cael eu hyfforddi i ddarparu eich gweithgareddau:** yn y blwch testun rhydd, eglurwch sut y credwch y gallai hyn weithio a pha mor debygol fyddai bod sefydliadau eraill yn dysgu o'ch gwaith. A yw'r gwaith hwn mor unigryw i chi neu eich cyd-destun fel y byddai'n anodd i sefydliadau eraill ailadrodd neu addasu i'ch dysgu chi? Neu a yw'n rhywbeth a allai ehangu?
- ♦ **Newid polisi fel bo'r gweithgaredd yn dod yn un prif ffrwd:** yn y blwch testun rhydd, eglurwch yr opsiwn a ddewisoch a beth a fyddai'n ei gymryd i weld newid polisi yn y maes hwn.

57. Ydych chi, neu rywun sy'n rhan neu'n gysylltiedig â'ch prosiect, wedi gwneud cais neu yn y broses o wneud cais am unrhyw grant ymchwil yr ydych yn gofyn am gyllid gan yr YEF ar ei gyfer??

- ♦ Do
- ♦ Ddim yn gwybod
- ♦ Naddo

Os dewisoch 'Do', byddwn yn gofyn am fwy o fanylion am y cyllid ymchwil a gawsoch.

Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn ein helpu i ddeall sut y gallwn wneud y mwyaf o unrhyw ymchwil arall a wnaed i'ch prosiect. Drwy wybod am waith gwerthuso arall sy'n parhau, gallwn sicrhau na fydd ein gwerthusiadau'n dyblygu unrhyw waith a'n bod yn adeiladu ar ymchwil a thystiolaeth sydd eisoes yn bodoli.

Cyllideb

58. Beth yw cyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn?

Rhowch gyfanswm gwerth y prosiect o'r dechrau i'r diwedd, pwy bynnag sy'n darparu'r cyllid.

Cofiwch hefyd, ar y pwynt hwn, ein bod ond yn disgwyl i gyllideb prosiect fod yn amcangyfrif o'r costau. Os cyrhaeddwch gam cyd-ddylunio'r cais, mae'n debyg y byddwn yn edrych eto ac yn addasu eich prosiect a'r gyllideb.

59. Pa ganran o'r holl gyllideb ar gyfer eich gweithgaredd sy'n dod gennym ni?

Rhowch faint o gyfanswm y gyllideb uchod yr ydych yn gofyn amdano gan yr YEF.

Nid yw'n broblem os ydych yn gofyn am 100% o'ch holl gyllideb gan yr YEF a bod y ddau rif yr un fath.

Nid oes raid i chi ddod o hyd i gyllid arall er mwyn i ni gymeradwyo eich prosiect i dderbyn grant, ac ni fydd yn rhan o sut fydd eich cais yn cael ei asesu. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ddod o hyd i

ffynonellau cyllid eraill lle gallwch. Gall y ffynonellau hyn gynnwys grantiau eraill, cyfraniadau o'ch arian anghyfnygedig eich hun, cymorth di-arian o fath arall neu gymorth pro-bono a roddir i'ch sefydliad am y gweithgareddau.

60. Dylech lenwi'r tabl isod i egluro wrthym faint fydd eich prosiect yn ei gostio. Rydym wedi gofyn i chi rannu eich symiau'n 4 math:

a. Costau'r prosiect

b. Costau gorbenion (e.e. costau swyddfa)

c. Costau staff

d. Costau cyfarpar

Gallwch wneud cais am hyd at 3 blynedd o gyllid. Os ydych ond yn gofyn am 1 neu 2 flynedd o gyllid, bydd ond angen i chi lenwi'r rhannau hynny yn y tabl.

Defnyddiwch y diffiniadau canlynol i'ch helpu i lenwi'r tabl:

- a. **Costau'r prosiect:** cost uniongyrchol yn ymwneud â chynnal eich gweithgaredd. (er enghraifft: costau teithio)
- b. **Gorbenion:** nid y gost o dalu am y gweithgaredd ei hun, ond cost hanfodol i gefnogi amryw o weithgareddau yn eich sefydliad. (er enghraifft: cost rhent swyddfa sy'n cael ei ddsbarthu i'ch gwahanol weithgareddau)
- c. **Costau staff:** costau sy'n gysylltiedig â'r staff fydd yn gweithio'n uniongyrchol ar eich gweithgaredd. Os yw'n gost staff ar gyfer person cyllid neu staff cefn swyddfa arall, sy'n cefnogi'r sefydliad cyfan, dylid cynnwys eu costau hwy o dan gorbenion.
- d. **Costau cyfarpar:** os ydych yn prynu eitem sy'n werth £1000 neu fwy, dylid ei chynnwys yn y rhan yma. Os ydych yn prynu eitem sy'n werth llai na £1000, dylid ei chynnwys o dan gostau'r prosiect.

61. Ar sail uchafswm ac isafswm nifer y plant a ddywedoch y gallech ddarparu gweithgareddau iddynt drwy gydol eich prosiect, beth fyddai'r gost fesul plentyn a lle bo'n briodol y gost fesul teulu o gymryd rhan yn eich prosiect?

Llenwch y tabl i'n helpu i ddeall cost eich prosiect fesul plentyn neu deulu. Nid ydym yn disgwyl i chi roi cyfrif manwl o hyn. Ond byddai'n ddefnyddiol i ni gael amcangyfrif fel y gallwn weld faint fyddai eich prosiect yn ei gostio i'w ddarparu ar raddfa lai neu fwy.



Beth sy'n digwydd nesaf



5. Beth sy'n digwydd nesaf

Cam un: asesu

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais, bydd yn cael ei anfon at ein tîm o aseswyr hyfforddedig i'w adolygu yn erbyn yr wyth maen prawf o dan Sut y byddwn yn asesu eich cais yn y canllawiau. Byddwn yn dechrau asesu ceisiadau cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn. **Rydym yn eich annog felly i gyflwyno eich cais cyn gynted ag y byddwch yn barod**, yn lle aros tan y dyddiad cau.

Bydd ein tîm asesu'n creu rhestr fer o geisiadau fydd yna'n cael ei hanfon i'n Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso i'w hadolygu. Bydd pobl ifanc a fu'n ein helpu i ddatblygu sgôp y rownd hon hefyd yn cyfrannu at greu'r rhestr fer.

Cam dau: Adolygu gan y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso

Amdan y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso

Grŵp o arbenigwyr annibynnol yn y maes rheoli grantiau, trais difrifol ymhlith pobl ifanc, ac asesu tystiolaeth prosiectau, yw ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso. Gwnawn yn siŵr fod gan y Pwyllgor hwn gynrychiolaeth amrywiol o ran oed, rhywedd, tarddiad ethnig, cefndir a lleoliad daearyddol. Y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau terfynol ar bopeth a ariannwn ac a werthuswn.

Tasg gyntaf ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso yw adolygu gwaith ein haseswyr a chadarnhau'r rhestr derfynol o geisiadau fydd yn mynd trwodd i ail gam ein proses o wneud cais.

Ar ôl i'r Pwyllgor adolygu'r rhestr, byddwn yn cysylltu gyda chi i roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais (naill ai eich bod yn aflwyddiannus neu'n symud at gam nesaf y cais). Byddwn yn disgwyl i'r cysylltu cyntaf hwn ddigwydd ganol Mawrth 2022.

Cam tri: eich paru gyda gwerthuswr

Unwaith y byddwn wedi penderfynu pa brosiectau fydd yn symud i'r cam nesaf, byddwn yn paru'r ymgeiswyr hynny â gwerthuswr o'n panel gwerthuso. Mae'r panel hwn yn cynnwys tua 35 o sefydliadau ymchwil a phrifysgolion sydd â'r wybodaeth, sgiliau a'r arbenigedd i wneud gwerthusiadau trylwyr o weithrediad ac effaith y prosiectau a ariannwn.

Pwysigrwydd gwerthusiadau annibynnol

Mae ein hymrwymiad i werthuso'n annibynnol yn golygu y gwnawn yn siŵr bod y gwerthusiadau a gomisiynwn yn digwydd ar wahân i ddarparu'r prosiect. Byddwn yn gweithio i'ch paru â gwerthuswr sydd â'r sgiliau iawn a'r arbenigedd i ddeall eich prosiect.

Bydd pob sefydliad yn bidio'n gystadleuol i gael eu partneru gyda chi os llwyddwch i fynd trwodd i gam hwn y broses. Bydd gwerthuswyr yn cael eu paru â'ch prosiect ar sail amryw o ystyriaethau, gan gynnwys cryfder ac ansawdd eu bid, eu sgiliau a'u profiad yn y dulliau gwerthuso sy'n briodol i'ch prosiect, a'u gwybodaeth benodol am y pwnc.

Cam pedwar: cyd-ddylunio

Unwaith y cewch eich paru â gwerthuswr, byddwch yn dechrau ar gyfnod o 'gyd-ddylunio' gan weithio gyda'ch gwerthuswr i ddylunio cynnig terfynol a dyluniad prosiect sydd â'r siawns orau o gael ei werthuso'n effeithiol. Mae hyn yn golygu y gallai elfennau o'ch cais a'ch dyluniad gwreiddiol newid.

Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod hyn yn digwydd yn feddylgar a strategol, ac os yw'n golygu newid eich cyllideb neu amserlen hefyd, byddwn yn deall a chefnogi hynny. Ein nod yw sicrhau bod hyn yn digwydd yn gydweithredol a'ch bod yn cael eich cefnogi drwy ba bynnag newidiadau sydd i'w gwneud.

Cam pump: cynnigion terfynol

Ar ôl i chi gyflwyno eich cynnig terfynol, wedi'i gyd-ddylunio gyda'ch gwerthuswr, byddwn yn ei anfon at ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylech gael y grant a'r gwerthusiad.

Bydd faint o amser fydd y cam 'cyd-ddylunio' hwn yn para'n dibynnu ar sut werthusiad sydd ei angen ar eich prosiect, ond bydd yn dechrau ddiwedd Mehefin ac wedi'i gwblhau erbyn yr Hydref 2022.

Amser

Mae'n bwysig cofio, o'r pwynt pryd y cyflwynwch ran gyntaf eich cais tan y pwynt y cewch wybod beth yw'r canlyniad terfynol (h.y. a fyddwch yn derbyn grant a gwerthusiad gan yr YEF), y bydd yn debygol o fod rhwng 10-12 mis. Credwn fod cael yr amser hwn i weithio gyda'n tîm a'ch gwerthuswr yn hanfodol. Gyda'n gilydd, bydd yn eich helpu i greu sylfaen gref ar gyfer darganfod beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â thrais.



